Archwilio Cymru
Audit Wales

# Felly, beth sy'n wahanol?

## Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol

Mai 2020



Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cafodd fy nhîm archwilio'i arwain gan Catryn Holzinger a'i gyfarwyddo gan Mike Usher.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Senedd a'r Llywodraeth. Yn ogystal ag archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus Cymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau i ganfod i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a mynd ar drywydd amcanion llesiant. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar yr archwiliadau hynny wrth y Senedd.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys cyrff y GIG, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan hwn ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi adnabod unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio. I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw gyhoeddiadau gennym mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy'r e-bost yn info@audit.wales. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallwch hefyd ysgrifennu atom naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol 4

Cynnwys yr adroddiad hwn 6

Beth rydym wedi'i wneud a pham 8

Ein ffocws ar gyfer y cyfnod adrodd cyntaf: 2015-2020 10

Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 12

Her cyflwyno'r Ddeddf: A yw'n mynd yn haws? 13

Ein canfyddiadau 16

Pennu'r amcanion llesiant cyntaf: Canfyddiadau ein hadroddiad yn 2018 16

Cymryd camau i gyflawni'r amcanion llesiant 20

Hirdymor 20

Atal 25

Integreiddio 32

Cydweithredu 37

Cynnwys 42

Felly, beth nesaf? 49

Beth nesaf i gyrff cyhoeddus? 49

Beth nesaf i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? 51

Beth nesaf ar gyfer ein dull archwilio? 52


## Atodiad


1 Methodoleg archwilio 54

# Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol

Pan aethom ati i ddechrau'r gwaith sy'n sylfaen i'r adroddiad hwn, ni feddyliodd unrhyw un ohonom y byddem yn brwydro heddiw yn erbyn yr argyfwng mwyaf yn ystod oes y rhan fwyaf ohonom.

I bob un ohonom – fel unigolion, cymunedau a chyrff cyhoeddus – mae'r byd yn lle gwahanol iawn heddiw. Mae'r pandemig byd-eang wedi effeithio ar bob un ohonom, ac mae'n parhau i effeithio ar bob un ohonom. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn frawychus, yn llawn straen a phwysau, ac yn drallodus. Ond bob dydd mae hanesion am weithwyr y sector cyhoeddus yn dangos dyfeisgarwch, ymroddiad a dewrder wedi bod yn gysur ac yn galondid i ni. Mae gwaith y bobl hyn yn destun balchder i bawb, a byddwn yn ddiolchgar yn iddynt am byth.

Bydd pawb yn canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng am gryn amser eto. Rywbryd yn y dyfodol, bydd gennym gyfle i oedi a myfyrio. Mae argyfwng yn gallu arwain at arloesi yn aml, ac rwy'n siŵr y bydd cyrff cyhoeddus wedi dysgu llawer o'u hymateb i Covid-19. Rwy'n awyddus i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi'r broses ddysgu hon, a'n bod yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i nodi a llunio'r gwersi hyn.

Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod tra gwahanol. Nid yw'n cynnwys cynllunio at argyfwng na'r ymateb i Covid-19. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harchwiliadau o 44 o gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf, rhwng 2015 a 2020.

Byddai'n hawdd diystyru'r Ddeddf fel rhywbeth amherthnasol yn sgil yr argyfwng presennol. Ond bydd arweinwyr gorau'r sector cyhoeddus yn nodi bod y dulliau gweithio a gyflwynir gan y Ddeddf – cynllunio ar gyfer yr hirdymor, atal problemau, gweithio gyda phobl eraill a gwrando arnynt, a mabwysiadu golwg ehangach – yn egwyddorion cadarn ar gyfer ymateb i unrhyw heriau posibl yn y dyfodol. O ganlyniad, rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn darparu rhywfaint o wybodaeth a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ddatblygu eu rhagofal a'u cadernid.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, ein prif amcan oedd ychwanegu gwerth trwy helpu cyrff cyhoeddus i ddysgu a gwella. Rydym wedi gweithio gyda chyrff cyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhanddeiliaid eraill er mwyn deall sut i gyrraedd y nod. Rydym wedi cyd-lunio methodoleg sy'n canolbwyntio ar ddulliau gweithio ac ymddygiad ac yn hyrwyddo hunan fyfyrio. Mae'n ceisio helpu cyrff i ddysgu a datblygu eu camau gweithredu eu hunain mewn ymateb i'n canfyddiadau. Nid oes modd cymhwyso neu archwilio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gyffredinol. Felly, rydym wedi gwrando, ceisio deall y cyd-destun a deall y gwahaniaethau. Rydym wedi dysgu llawer a fydd yn berthnasol i'n gwaith yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, rydym wedi canfod bod cyrff cyhoeddus yn gallu dangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n glir hefyd bod angen iddynt wella sut maent yn cymhwyso pob un o'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau newid diwylliannol gwirioneddol – sef hanfod y Ddeddf. Yn ystod y cyfnod adrodd pum mlynedd nesaf, bydd angen i gyrff cyhoeddus ledled Cymru gydweithio ar draws y system er mwyn gwella llesiant a sicrhau bod eu gwaith yn cyrraedd y lefel nesaf.

Rwy'n deall na fydd pob un o'r 44 corff yn gallu ystyried neu ymateb i'r canfyddiadau hyn am gryn amser. Hefyd, mae'n bosibl na fydd Aelodau'r Senedd, cymdeithas ddinesig ac eraill yn gallu cyfrannu at sgwrs am ein canfyddiadau am gryn amser. Ar adeg briodol, bydd y Comisiynydd a minnau yn creu'r amser a'r gofod i archwilio'r canfyddiadau a'r argymhellion.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cynnwys yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys prif ganfyddiadau archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol), a gwblhawyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf).

2 Yn ystod 2018-19 a 2019-20, cwblhawyd 71 o archwiliadau ar draws y 44 corff cyhoeddus yng Nghymru a enwir o dan y Ddeddf.[1] Cyhoeddwyd adroddiad ar bob archwiliad, sydd ar gael ar ein gwefan.[2]

3 Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r hyn roeddem yn chwilio amdano, ein canfyddiadau a'r hyn y byddwn yn disgwyl ei weld yn y dyfodol. Hefyd, mae'n defnyddio canfyddiadau perthnasol eraill ledled ein gwaith archwilio.

4 Hefyd, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Comisiynydd) wedi cyhoeddi adroddiad heddiw, **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**. Gyda'i gilydd, mae'r ddau adroddiad yn disgrifio sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cymhwyso'r Ddeddf a gwella llesiant ledled Cymru.[3]

1 Y 44 corff cyhoeddus a enwir o dan y Ddeddf yw Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru), Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio pob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd ac adrodd ar yr archwiliadau i'r Senedd cyn pob etholiad y Senedd.

3 Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 12 mis cyn etholiad y Senedd, gan roi ei hasesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i osod a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Arddangosyn 1 – cysyniadau allweddol ar gyfer yr adroddiad hwn**[4]

## Mae'r **Ddyletswydd Llesiant** yn ei gwneud hi'n ofynnol…

...i gyrff cyhoeddus gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy. Fel rhan o hyn, rhaid iddynt osod amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.

## **Datblygu cynaliadwy** yw…

'…y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.'

## Nodau llesiant

- Mwy Cyfartal
- Iachach
- Cydnerth
- Llewyrchus
- Cyfrifol ar lefel fyd-eang
- Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymunedau Cydlynus

## Diffiniad yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** yw gweithredu mewn ffordd…

'…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu bodloni heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'

I wneud hyn, rhaid iddynt ystyried y **'pum ffordd o weithio'**



Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

Rhaid i'r **Archwilydd Cyffredinol archwilio** cyrff cyhoeddus ac asesu i ba raddau maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth a) gosod amcanion llesiant, a b) cymryd camau i fodloni'r amcanion hynny.

---

Rhaid i **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae hyn yn cynnwys monitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant.

4 I gael rhagor o wybodaeth, gweler **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (2016)**.

# Beth rydym wedi'i wneud a pham

**Arddangosyn 2 – archwilio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: Beth rydym wedi'i wneud a pham**

## Y ddyletswydd 1

Rhaid i ni asesu i ba raddau y mae 44 o gyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth **osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni**

## Yr her 2

Asesu 'ffyrdd o weithio'

44 o gyrff gwahanol iawn!

Deall y berthynas rhwng yr egwyddor datblygu cynaliadwy a gwerth am arian

Cydgysylltu ac ategu gwaith y Comisiynydd

## Y sgwrs 3

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r sector cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid

Buom yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd a'i thîm

Cynhaliwyd rhaglen o naw cynllun peilot i'n helpu i gydlunio a phrofi dulliau archwilio

## Y dasg i randdeiliaid 4

'Mae angen i chi edrych y tu hwnt corfforaethol a chanolbwyntio ar i gynllunio strategol a threfniadau faterion mwy gweithredol hefyd'

'Dylech ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl, gan gynnwys partneriaid a dinasyddion'

'Mae angen i chi ganolbwyntio ar ddulliau gweithio ac ystyried ymddygiad, yn hytrach na chanolbwyntio ar brosesau a threfniadau'

'Mae angen i chi weithio gyda'r Comisiynydd er mwyn pennu disgwyliadau cyson a chydgysylltu'ch gweithgarwch'

'Mae angen i chi osgoi canolbwyntio ar gydymffurfiaeth a chysondeb'

## Ein hymrwymiad

5

Canolbwyntio ar y ‘pum ffordd o weithio’

Canolbwyntio ar ‘sut’ mae sefydliadau yn gweithio, yn ogystal â ‘beth’ maent yn ei wneud

Helpu cyrff cyhoeddus i hunanfyfyrio ac archwilio beth y gallent ei wneud yn wahanol

Cipio naratif a gofyn am safbwyntiau trawstoriad o staff a rhanddeiliaid

Darparu adborth cynnar

Annog cyrff cyhoeddus i ddatblygu eu camau gweithredu eu hunain mewn ymateb i'n canfyddiadau



## Cyflawni

6

Cwblhawyd 71 o archwiliadau yn 2018-19 a 2019-20 ym mhob un o'r 44 corff

Ystyriwyd eu camau gwe ithredu i gyflawni eu hamcanion llesiant

Ystyriwyd amrywiaeth eang o gamau gweithredu, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, economi ac adfywio, ffyrdd iach o fyw, rheoli gwastraff, cyflogaeth a sgiliau

Cyhoeddwyd adroddiadau, gan gynnwys camau gweithredu roedd cyrff wedi ymrwymo iddynt mewn ymateb i'n canfyddiadau

Rydym wedi crynhoi'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, sydd i'w gosod gerbron y Senedd



## Y dyfodol


7

Rydym yn gofyn am adborth gan gyrff cyhoeddus a byddwn yn ymateb iddo

Byddwn yn integreiddio ein hegwyddor datblygu cynaliadwy a gwaith sy'n rhoi gwerth am arian

Byddwn yn cydweithio mwy â'r Comisiynydd

Byddwn yn parhau i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud ein gwaith



## Ein ffocws ar gyfer y cyfnod adrodd cyntaf, 2015-2020

5 Mae'r cyfnod adrodd cyntaf o dan Ddeddf 2015 wedi bod yn unigryw. Gofynnwyd i gyrff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru) gyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf yng nghanol y cyfnod, erbyn mis Ebrill 2017.[5] Wedyn, roedd angen amser a lle arnynt i ddechrau cyflawni'r amcanion hyn. O ganlyniad, roedd gennym lai o amser i gwblhau ein harchwiliadau o'i gymharu â chyfnodau adrodd yn y dyfodol.

6 Rydym yn sylweddoli ei bod yn anodd cymhwyso'r Ddeddf yn dda ac yn gyson. Mae cyrff cyhoeddus yn parhau i ddysgu, felly rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng darparu cymorth a her adeiladol yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf.

7 Rydym wedi sicrhau ein bod wedi cynnwys yr elfennau gofynnol yn unol â'r gyfraith, ac roeddem yn ymwybodol o'r holl waith archwilio a'r llwyth gwaith posibl ar gyfer cyrff cyhoeddus. Felly, er mwyn datblygu darlun o sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r Ddeddf, fe aethom ati i gwblhau rhai archwiliadau penodol, yn ogystal â chasglu gwybodaeth ddefnyddiol o waith archwilio arall. Yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf rydym wedi gwneud y canlynol:

- cyhoeddi adroddiad cychwynnol **Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** Roedd yr adroddiad hwn yn ystyried sut roedd cyrff cyhoeddus yn dechrau cymhwyso'r Ddeddf a sut aethant ati i ddatblygu eu set gyntaf o amcanion llesiant;

- gofyn i gyrff cyhoeddus sut maent yn ymgorffori'r Ddeddf yn fwy cyffredinol er mwyn helpu i lywio ein dealltwriaeth gyffredinol a chynllunio gwaith y dyfodol;

- casglu gwybodaeth berthnasol trwy ein hastudiaethau lleol a chenedlaethol;

- cwblhau archwiliadau manwl o sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i chymhwyso mewn perthynas â gweithgareddau penodol ('camau').

8 Roedd ein harchwiliadau manwl yn cynnwys themâu amrywiol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yr economi ac adfywio, ffyrdd iach o fyw, rheoli gwastraff, cyflogaeth a sgiliau. Mae **Arddangosyn 3** yn darparu trosolwg o'r themâu hyn. O ganlyniad, bu modd i ni adrodd canfyddiadau ymarferol sy'n darparu gwybodaeth ac yn helpu i wella gwasanaethau.

5 Roedd hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu hamcanion llesiant chwe mis ar ôl etholiad y Senedd.

9 Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r canfyddiadau amrywiol, y themâu pwysig a'r prif bwyntiau dysgu o'r archwiliadau hynny, gyda phob un ohonynt yn cynnwys ein casgliadau ar sut yr oedd cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Arddangosyn 3 – y themâu a archwiliwyd gennym ar draws y 44 corff cyhoeddus**

| Roedd y camau a archwiliwyd gennym yn cwmpasu… | | |
|---|---|---|
| Digidol | Amgylchedd naturiol | Ysgolion & Gwasanaethau ieuenctid |
| Cynnwys y cyhoedd | Iechyd a gofal cymdeithasol | Gwasanaethau hamdden |
| Ymddygiad anghymdeithasol | Trawsnewid gwasanaethau | Ffyrdd iach o fyw |
| Gweithio mewn partneriaeth | Tai | Celfyddydau a diwylliant |
| Gwastraff ac ailgylchu | Threchu Tlodi | Cyflogaeth a sgiliau |
| Cynllunio strategol | Plant a theuluoedd | Economi ac adfywio |

# Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

10 Ymysg pethau eraill, mae'n rhaid i'r Comisiynydd 'fonitro ac asesu' i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Mae hyn yn gysylltiedig â'r hyn mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried sut mae cyrff cyhoeddus wedi **cynllunio a chwblhau** eu gwaith, tra bod angen i'r Comisiynydd ystyried beth maent wedi'i **gyflawni**.

11 Mae'n rhaid i **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol** y Comisiynydd grynhoi'r gwaith y mae wedi'i wneud a nodi'r gwelliannau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn well.

12 Rydym wedi gweithio'n agos gyda swyddfa'r Comisiynydd wrth ddatblygu ein dau adroddiad statudol. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi helpu i lywio argymhellion y Comisiynydd yn ei hadroddiad hi.

13 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dau argymhelliad: un ar gyfer Llywodraeth Cymru ac un ar gyfer y Senedd (gweler **tudalen 51**), ond nid yw'n cynnwys set o argymhellion ar wahân ar gyfer y 44 o gyrff cyhoeddus. Roedd ein hadroddiadau unigol ar gyfer pob corff yn nodi meysydd i'w gwella, ac mae pob corff wedi datblygu cynllun gweithredu i ymateb iddynt. Gallai pennu set arall o argymhellion yn yr adroddiad hwn arwain at gyflwyno gormod o argymhellion. Gan fod y Comisiynydd wedi cyflwyno argymhellion yn ei hadroddiad hi, mae un set o argymhellion cenedlaethol ar gael i gyrff cyhoeddus. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiadau blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd i bennu disgwyliadau clir a chyson ar gyfer cyrff cyhoeddus.

# Her cyflwyno’r Ddeddf: A yw’n mynd yn haws?

14 Amlygodd ein hadroddiad blwyddyn un **Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015?** sawl rhwystr sy’n ei gwneud yn anodd i gyrff cyhoeddus ymgorffori’r Ddeddf yn llawn a manteisio’n llawn arni wrth gyflawni eu gwaith. Roedd y rhwystrau hyn yn cynnwys cyllid tymor byr, cymhlethdod deddfwriaethol a llywodraethu ac adrodd ar berfformiad (gweler **Arddangosyn 4**). Mae’r rhwystrau hyn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer ein canfyddiadau ar sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

15 Hefyd, mae’n rhesymol tybio y bydd cyrff cyhoeddus yn debygol o wneud cynnydd cyflymach wrth gymhwyso’r Ddeddf os oes modd mynd i’r afael â’r rhwystrau a nodir yn **Arddangosyn 4**. Mae’n bosibl bod hyn hyd yn oed yn bwysicach yng nghyd-destun yr heriau mawr, cymhleth y byddant yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf (gweler **tudalen 49**). **Os ydym eisiau gweld cynnydd ar raddfa fwy a chynyddu gallu cyrff cyhoeddus i ymateb i’r heriau sy’n bodoli, mae angen mynd i’r afael â’r rhwystrau hyn**. Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru, y Comisiynydd a’r Archwilydd Cyffredinol helpu i greu’r amodau ar gyfer newid.

16 Mae angen i Lywodraeth Cymru ei hun gyflawni swyddogaethau lluosog. Wrth reswm, mae'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth, cyhoeddi canllawiau a chefnogi'r broses weithredu. Hefyd, mae wedi'i rhwymo gan y ddeddfwriaeth fel un o'r 44 corff. Yn ogystal, mae ganddi swyddogaeth arweinyddiaeth ehangach, sy'n cynnwys modelu'r math o ymddygiad mae'n ei ddisgwyl gan eraill, gan ddangos sut mae modd cymhwyso'r Ddeddf a chyfathrebu hynny'n glir. Mae'r swyddogaeth arweinyddiaeth hon yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae ganddi reolaeth uniongyrchol drostynt, ac i helpu cyrff cyhoeddus eraill i weithredu'r Ddeddf. Mae hyn yn heriol iawn i Lywodraeth Cymru, gan fod angen dull cynhwysfawr o gymhwyso'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod polisi, deddfwriaeth a chyllid newydd yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler **Arddangosyn 4**), a bod Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn cyn cyrff eraill. Dylai'r swyddogaeth arweinyddiaeth hefyd gynnwys ystyried sut mae'n rhyngweithio â chyrff cyhoeddus eraill a sut mae'n gallu cefnogi'r newidiadau y mae am eu gweld.[7] Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi beirniadu'r adnoddau a'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu. Yn ei hanfod, er mwyn helpu cyrff eraill i lwyddo, rhaid i Lywodraeth Cymru lwyddo ei hun.

> Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o adnoddau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nhermau datblygu arweinyddiaeth, darparu cymorth i greu newid trawsffurfiol a chyflwyno'r seilwaith sy'n ofynnol o dan y Ddeddf; o fewn eu sefydliad hwy eu hunain a hefyd y sefydliadau a noddir ganddynt.
>
> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru[6]

17 Gall y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol helpu trwy ganolbwyntio ar y materion cywir, gosod disgwyliadau cyson ac osgoi gorlwytho cyrff cyhoeddus â gofynion monitro. Hefyd, mae'r ddau yn gyfrifol am hyrwyddo ymarfer da a chynorthwyo dysgu a gwelliant. Mae'r ddwy swyddfa wedi cydweithio'n agos i geisio cyflawni hyn, ond rydym yn ymwybodol bod modd gwneud mwy. Byddwn yn parhau i gryfhau'r broses o gydgysylltu ein gwaith yn ystod y cyfnod nesaf.

18 Roedd methodoleg archwilio Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i dylunio i ymateb i bryderon a cheisiadau cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn ailddatgan ein hymrwymiad ein hunain i sicrhau bod ein dull gweithredu yn helpu i ysgogi'r ymddygiad cywir ac yn cefnogi cynnydd, yn hytrach na'i rwystro.

6 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Cynnydd Tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, Hydref 2019

7 Gweler hefyd ein crynodeb a'n hadroddiadau atodol ar **Lesiant Pobl Ifanc**, Medi 2019.

**Arddangosyn 4 – rhwystrau i gynnydd, fel y'u nodwyd gan gyrff cyhoeddus yn 2017 a sut mae pethau wedi newid ers hynny**

| Yn 2017... | ...Nawr |
|---|---|
| Nododd cyrff cyhoeddus fod **cyllid tymor byr** yn amharu ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol yn yr hirdymor. Nododd rhai cyrff a noddir fod y llythyr cylch gwaith blynyddol yn peri'r un her. Yn gysylltiedig â hyn, nodwyd bod diffyg hyblygrwydd o ran y ffordd y gellir gwario arian grant a gofynion monitro anghymesur yn amharu ar waith cynllunio hirdymor a'r gallu i ganolbwyntio ar ganlyniadau. | Mae cyllid tymor byr a hysbysiadau hwyr yn parhau. Mae yna rai enghreifftiau o uno grantiau a chynyddu hyblygrwydd. Mae'r Comisiynydd yn argymell, gan ddechrau gyda Llywodraeth Cymru, y dylid symud cynllunio ariannol i fodel o gyllidebau llesiant, ac y dylid diwygio llythyron cylch gwaith ar gyfer cyrff cenedlaethol er mwyn eu gosod mewn cyd-destun mwy hirdymor.[8] |
| Roedd rhai cyrff wedi disgrifio her **cymhlethdod deddfwriaethol** a'r anhawster o gysylltu gofynion statudol yn ymarferol. Yn benodol, roeddent yn cyfeirio at yr angen i ganfod dull ymarferol o fodloni gofynion y Ddeddf yn ogystal â bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 neu ddeddfwriaethbolisi a deddfwriaeth cynllunio. | Mae'n parhau i fod yn her ymarferol.<br><br>Mae ein hastudiaethau cenedlaethol wedi nodi cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym wedi gweld enghreifftiau o bolisi, canllawiau a deddfwriaeth yn gwneud cyfeiriadau ymylol neu aneglur yn unig at y Ddeddf. |
| Mynegwyd rhai pryderon am y **gofynion adrodd cenedlaethol** presennol a'u pwyslais ar ddangosyddion, y credwyd eu bod yn tanseilio ffocws ar ganlyniadau hirdymor a manteision ataliol. Roedd rhai cyrff yn poeni am y posibilrwydd y gallai gofynion archwilio a rheoleiddio arwain at ganolbwyntio ar gydymffurfio â phroses yn hytrach na hyrwyddo ysbryd y Ddeddf. | Bu rhai newidiadau i ofynion adrodd cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol, ac nid oes angen iddynt adrodd ar fesurau perfformiad cenedlaethol erbyn hyn. Fodd bynnag, mae mesurau perfformiad cenedlaethol ym maes iechyd yn seiliedig ar berfformiad gwasanaethau acíwt. Mae'r Comisiynydd yn ystyried cynnal adolygiad i archwilio'r mater hwn. |
| Nododd cyrff cyhoeddus rai heriau y bydd angen eu goresgyn er mwyn sicrhau bod **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn effeithiol, gan gynnwys: cymhlethdod yr amgylchedd llywodraethu partneriaeth, rhai partneriaid dylanwadol yn methu ymgysylltu o bosibl, lefelau ymrwymiad gwahanol a dulliau gweithio gwahanol. | Mae'r ddadl am lywodraethu partneriaeth yng Nghymru yn parhau, ac mae wedi'i llywio gan adolygiadau amrywiol a gyhoeddwyd ers datganoli ym 1999. Gallai'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ychwanegu at amgylchedd partneriaeth sydd eisoes yn gymhleth ac yn orlawn trwy greu Cydbwyllgorau statudol. |

8 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**, Mai 2020.

# Ein canfyddiadau

### Mae'r adran hon yn cynnwys

- **Pennu'r amcanion llesiant cyntaf:** Ein canfyddiadau ynglŷn â sut gwnaeth cyrff cyhoeddus bennu eu hamcanion llesiant cyntaf, o'n hadroddiad 2018: **Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**
- **Cymryd camau i gyflawni amcanion llesiant:** Trosolwg o'n canfyddiadau yn ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus wedi cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant, ar sail yr archwiliadau a gwblhawyd gennym yn 2018-19 a 2019-20.

## Pennu'r amcanion llesiant cyntaf: Canfyddiadau ein hadroddiad yn 2018

19 Fe wnaethom archwilio sut roedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant cyntaf yn ein hadroddiad yn 2018. Nodwyd bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion cyntaf yn 2017 a'u bod yn gallu darparu rhai enghreifftiau o sut roeddent wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio fel rhan o'r broses.

## Heriau

20 Fe wnaethom adrodd yn 2018 fod cyhoeddi amcanion llesiant wedi achosi rhai anawsterau i gyrff cyhoeddus. Rhagnododd y Ddeddf amserlen gynllunio heriol ar gyfer pennu amcanion llesiant ac mae'n bwysig cofio nad oedd yr un o'r 44 corff yn dechrau â llechen lân. Roedd gofyn i rai cyrff gyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf hanner ffordd drwy gylch cynllunio oedd eisoes ar waith. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ond roedd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi amcanion llesiant yn fuan cyn yr etholiadau llywodraeth leol. Roedd cyrff unigol wedi gorfod cyhoeddi eu hamcanion cyn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a nodwyd gan rai bod hyn yn rhwystr i integreiddio hefyd.

21 Dilynodd cyrff cyhoeddus drywydd gwahanol i gysoni neu integreiddio eu hamcanion llesiant â strategaethau ac amcanion corfforaethol a fodolai eisoes. Nododd ein hadroddiad yn 2018 fod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi datblygu amcanion llesiant yn 2017 a oedd yn ychwanegu at eu hamcanion corfforaethol blaenorol neu'n eu disodli. Dewisodd ambell gorff beidio â phennu amcanion llesiant erbyn y terfyn amser statudol a nododd eraill eu bod yn bwriadu eu diwygio yn fuan ar ôl eu pennu.

22 Os oedd cyrff cyhoeddus wedi penderfynu peidio ag integreiddio eu hamcanion llesiant a chorfforaethol, weithiau roedd yn aneglur sut roedd eu hamcanion amrywiol yn cysylltu â'i gilydd, neu sut roeddent yn gyson â'u prosesau cynllunio corfforaethol, eu mesurau perfformiad a'u cyllideb. Roedd hyn er gwaethaf arweiniad clir mai cynllunio corfforaethol (a chynlluniau corfforaethol lle bo hynny'n berthnasol) ddylai fod y mecanwaith ar gyfer gosod amcanion llesiant.[9]

## Cymhwyso'r pum ffordd o weithio

23 Ar gyfer ein hadroddiad yn 2018, gofynnwyd i gyrff cyhoeddus sut roedd eu proses ar gyfer pennu amcanion llesiant yn wahanol i sut roeddent wedi pennu amcanion corfforaethol yn y gorffennol. Nododd y rhan fwyaf ohonynt fod y broses yn wahanol, ond yn aml roeddent yn methu egluro sut roedd yn wahanol neu roi enghreifftiau o sut roeddent wedi defnyddio pob un o'r pum ffordd o weithio. Roedd yr enghreifftiau a nodwyd yn tueddu i ymwneud â chydweithio, cyfrannu neu integreiddio.

9 Llywodraeth Cymru '**Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol' – canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, 2016

24 Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod wedi manteisio ar waith a gwblhawyd mewn **cydweithrediad** trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w helpu i ddatblygu eu hamcanion llesiant. Fe wnaethant ddisgrifio sut roeddent wedi defnyddio asesiad llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'u sylfaen dystiolaeth, yn debyg i rai cyrff iechyd.[10]

25 Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod wedi cynnwys y cyhoedd wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant. Nid oedd yn glir bob amser sut roedd hyn yn wahanol i'r prosesau ymgysylltu ac ymgynghori a gwblhawyd yn y gorffennol, a sut roeddent wedi newid i '**gynnwys**' y cyhoedd. Dywedodd rhai eu bod wedi manteisio ar y broses ymgysylltu a gwblhawyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu'r asesiad o lesiant. Fodd bynnag, nododd ein hadroddiad diweddar o'n **Hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**:

> 'Er bod gweithgarwch ymgysylltu wedi cymryd llawer o amser ac wedi bod yn helaeth mae wedi tueddu, serch hynny, i ddilyn dulliau traddodiadol sy'n canolbwyntio ar hysbysu yn hytrach na chynnwys pobl ac, o ganlyniad, nid yw'n bodloni disgwyliadau newydd y Ddeddf.'[11]

26 Nododd y rhan fwyaf o gyrff iechyd eu bod wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel rhan o'r broses o ddatblygu eu hamcanion llesiant, ond ychydig iawn a gyfeiriodd at ymgysylltu â'r cyhoedd (ac eithrio wrth ddefnyddio canlyniadau unrhyw brosesau ymgysylltu a gafodd eu cynnwys yn yr asesiad o lesiant). Nododd ambell gorff iechyd ei fod yn bwriadu cynnwys y cyhoedd i raddau mwy wrth adolygu ei amcanion llesiant.

27 Yn yr un modd, roedd Llywodraeth Cymru a chyrff a noddir yn tueddu i gynnwys staff a rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant, a nododd rhai eu bod wedi cynnwys cylch ehangach o bobl nag yn y blynyddoedd cynt. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r cyrff hyn a oedd yn cynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant, er bod eraill wedi lansio prosesau ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr wedyn.

10 Mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o lesiant o dan adran 37 o'r Ddeddf.

11 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Hydref 2019

28 Nododd rhai cyrff cyhoeddus eu bod wedi gweithredu mewn ffordd fwy '**integredig**' trwy gynnwys pobl o gefndiroedd a disgyblaethau gwahanol, a oedd wedi'u helpu i feddwl yn ehangach am eu gwaith. Er bod cyrff cyhoeddus yn credu eu bod wedi gwella'r broses o bosibl, nid oedd hyn yn arwain o reidrwydd at amcanion a oedd yn adlewyrchu holl elfennau llesiant. Nododd y Comisiynydd:

> 'I raddau helaeth, mae gan yr amcanion ffocws ar ddymuniad i wella llesiant economaidd a chymdeithasol ardaloedd, ond gydag ychydig o bwyslais ar yr amgylchedd neu ddiwylliant.'[12]

29 Fe ddaeth rhywfaint o wybodaeth i law ynglŷn â sut roedd cyrff cyhoeddus wedi ystyried yr **hirdymor** wrth bennu eu hamcanion llesiant. Derbyniwyd hyd yn oed yn llai o wybodaeth am **atal**. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon wedi deillio o asesiadau llesiant, er bod y Comisiynydd wedi nodi gwendidau yng ngwybodaeth yr asesiadau yn ymwneud â thueddiadau hirdymor. Fodd bynnag, cafwyd cyfeiriadau at weithgareddau atal mewn cynlluniau, gan gynnwys cyfeiriadau at weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pwysleisiodd yr awdurdodau tân ac achub fod gwaith atal yn ddull gweithredu llwyddiannus sydd wedi'i hen sefydlu, ac roedd yr enghreifftiau yn cynnwys gwaith gyda phartneriaid iechyd a'r heddlu yn ymwneud ag atal codymau a diogelwch tân.

30 Er bod cyrff cyhoeddus yn credu o bosibl eu bod yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio, nid oedd yn glir bob amser sut roedd y broses yn wahanol neu beth oedd yn newid o ganlyniad. Hefyd, nododd dadansoddiad y Comisiynydd:

> 'Ar hyn o bryd, mae cyrff cyhoeddus yn ymrwymo i amcanion llesiant sydd i raddau helaeth yn debyg i'r amcanion corfforaethol y byddent wedi eu gosod cyn 2017.'[13]

31 Yn ein gwaith diweddar, nodwyd gennym yr angen i ychydig o gyrff cyhoeddus egluro sut yr oeddent yn mynd i gyflawni a monitro cynnydd tuag at eu hamcanion llesiant. Roedd hyn yn cynnwys dau gorff cyhoeddus a oedd wedi gosod amcanion llesiant heb nodi'r camau y byddent yn eu cymryd i'w cyflawni. Gan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau statudol, gwnaethom adrodd hyn i'r cyrff hynny.

32 Byddwn yn gwneud gwaith ychwanegol ar osod amcanion llesiant yn y cyfnod adrodd nesaf a byddwn yn edrych i weld ystyriaeth lawn ac ystyrlon o'r pum ffordd o weithio.

12 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Y siwrnai hyd yn hyn**, Mai 2018.

13 Ibid.

# Cymryd camau i gyflawni'r amcanion llesiant

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno canfyddiadau ein harchwiliadau o gamau penodol sy'n cael eu cymryd gan gyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant, a sut aethant ati i gymhwyso'r pum ffordd o weithio. Hefyd, maent yn cynnwys rhai cyfeiriadau at ein hadroddiadau eraill sydd wedi'u cyhoeddi. Mae rhai astudiaethau achos o Gymru wedi'u dylunio i ddangos sut mae'r pum ffordd o weithio wedi'u cymhwyso'n effeithiol. Hefyd, mae rhai astudiaethau achos o'r tu allan i Gymru wedi'u cynnwys, ac rydym yn gobeithio eu bod yn adnoddau defnyddiol.

## Hirdymor

**Pam mae'n bwysig:** Mae cynllunio ar gyfer yr hirdymor yn ganolog i'r Ddeddf. Os nad yw cyrff cyhoeddus yn edrych ymlaen ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr hyn sydd angen iddynt ei gyflawni heddiw a'r hyn y mae angen iddynt hwy a chenedlaethau'r dyfodol ei gyflawni yn y dyfodol, gallent leihau llesiant a chynyddu costau yn yr hirdymor.

### Y disgwyliad[14]

**Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus…**

Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, yn enwedig lle gall pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith andwyol yn y tymor hir.

**Gallai cyrff cyhoeddus ddangos hyn trwy…**[15]

- Ddatblygu dealltwriaeth glir o 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Llunio camau gweithredu i gyflawni amcanion llesiant a chyfrannu at weledigaeth hirdymor.
- Llunio camau gweithredu i sicrhau manteision tymor byr neu dymor canolig, ac effaith hirdymor.
- Llunio camau gweithredu sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o anghenion, tueddiadau a phwysau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o beryglon a chyfleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Dyrannu adnoddau i sicrhau manteision hirdymor a thymor byr.
- Canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau – a nodi cerrig milltir os yw'r canlyniadau'n rhai hirdymor.
- Croesawu dulliau gweithredu newydd a allai helpu i sicrhau manteision yn fwy hirdymor.
- Gwerthfawrogi deallusrwydd a defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth.

14 Mae disgwyliadau wedi'u hamlinellu yn adran 5 o'r Ddeddf a'r canllawiau statudol cysylltiedig.

15 Datblygwyd y 'dangosyddion cadarnhaol' hyn drwy ein gwaith peilot gyda chyrff cyhoeddus.

**Ein canfyddiad:** Nododd ein gwaith lawer o enghreifftiau lle yr roedd cyrff cyhoeddus wedi meddwl am beth maent am ei gyflawni yn yr hirdymor. Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd angen i gyrff cyhoeddus gynllunio mewn ffordd fwy soffistigedig ar gyfer y dyfodol, ar sail dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion presennol a thueddiadau'r dyfodol, gan nodi mesurau cynnydd ac effaith priodol.

### Deall y presennol a'r dyfodol

33 Mae'n glir na all cyrff cyhoeddus ddarogan y dyfodol gydag unrhyw sicrwydd. Ond rydym yn disgwyl iddynt feddwl am y dyfodol ac ystyried ansicrwydd, sy'n golygu deall yn well anghenion, peryglon a chyfleoedd ar hyn o bryd ac yn fwy hirdymor. Mae'n golygu nodi pa fath o ddyfodol maent am ei weld a beth y gallant ei wneud i'w sicrhau. Mae sawl ffordd o wneud hyn.

34 Yn gysylltiedig â hyn, mae'r diffiniad o hirdymor o dan y Ddeddf yn mynd y tu hwnt i 'feddwl am y dyfodol' yn unig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau cydbwysedd rhwng beth maent eisiau neu angen ei gyflawni ar hyn o bryd, a'r hyn y byddant hwy neu genedlaethau'r dyfodol eisiau neu angen ei gyflawni dros y tymor hir.

35 Nodwyd bod gan lawer o gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth resymol o'r pwysau sy'n deillio o anghenion a gofynion presennol. Hefyd, roedd rhai'n gallu disgrifio sut roedd gofynion a phwysau eraill yn debygol o newid dros amser. Roeddent yn defnyddio data ar berfformiad, canlyniadau ymgynghoriadau ac ymchwil leol, fel asesiadau o anghenion y boblogaeth ac asesiadau llesiant i'w helpu i ddeall anghenion pobl a lleoedd.[16]

36 Er bod rhai cyrff cyhoeddus yn gallu disgrifio rhai o'r newidiadau tebygol yn y galw, a'r ffactorau a allai effeithio ar hynny, ni welsom lawer o enghreifftiau o ragamcanu a chynllunio ar gyfer sefyllfaoedd. Nodwyd cyfleoedd i gyrff cyhoeddus feddwl am sut gallai gwybodaeth a thueddiadau ehangach effeithio ar yr hyn roeddent yn ceisio ei gyflawni. Mae angen iddynt feddwl am y cysylltiadau rhwng tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, yn hytrach na chanolbwyntio ar y rhai sydd â chysylltiad amlwg ac uniongyrchol. Hefyd, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn diweddaru eu dadansoddiadau o dueddiadau, fel sy'n briodol.[17]

16 Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol lunio Asesiad o Anghenion y Boblogaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

17 Gweler hefyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Cynnydd Tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, Hydref 2019

37 Roedd y Comisiynydd wedi amlygu gwendidau mewn asesiadau llesiant blaenorol, gan nodi:

> '… eu bod yn methu ystyried mewn gwirionedd dueddiadau hirdymor y dyfodol na heriau polisi aml-genedliadol' a 'bod angen eglurhad pellach o negeseuon sy'n ymhlyg yn y data er mwyn deall yn well achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol'.[18]

Er mwyn sicrhau bod asesiadau llesiant yn ffynhonnell tystiolaeth bwysig ar gyfer cyrff cyhoeddus, bydd angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gryfhau eu gwybodaeth am dueddiadau'r dyfodol. Dylai adroddiad arfaethedig Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol ddarparu ffynhonnell gwybodaeth bwysig ar gyfer cyrff cyhoeddus ledled Cymru. Yn anochel, bydd angen i gyrff cyhoeddus o bob math ailystyried tueddiadau tymor canolig a hirdymor wrth ddechrau ymateb i ganlyniad y pandemig byd-eang.

**Astudiaeth achos – Adroddiad Dyfodol Gwent**

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Ash Futures adroddiad sganio'r gorwel ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ardal Gwent. Disgrifiodd y tueddiadau byd-eang a lleol a'u goblygiadau posibl ar gyfer pobl, busnesau ac amgylchedd Gwent dros y 10 i 20 mlynedd nesaf.

Defnyddiwyd 'y model tri gorwel', sy'n archwilio ffactorau allanol a) ar hyn o bryd b) yn y dyfodol agos c) yn y tymor canol a'r hirdymor. Er bod y gwaith hwn yn cydnabod natur anrhagweladwy'r dyfodol, mae'n darparu llinell sylfaen ddefnyddiol i ofyn cwestiynau.

I gael mwy o wybodaeth am Adroddiad Dyfodol Gwent dilynwch y ddolen hon

18 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory**, 2017.

## Cynllunio ar gyfer y dyfodol

38 Daethom ar draws ychydig o enghreifftiau nodedig o gyrff cyhoeddus yn llunio a gweithio tuag at weledigaeth hirdymor wirioneddol, gan edrych 10 mlynedd neu fwy i'r dyfodol. Dylai hyn helpu i lywio eu camau gweithredu a'u penderfyniadau yn y tymor byr a'r tymor canolig. Hefyd, nododd y Comisiynydd fod amcanion llesiant yn tueddu i fod yn amcanion hirdymor.[19] Gwelsom hefyd ychydig o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn arfarnu peryglon a manteision prosiectau dros yr hirdymor, er enghraifft 40 i 60 mlynedd.

39 Yn amlach, gwelsom fod cyrff cyhoeddus yn cynllunio i ddarparu gweithgareddau dros y tymor byr a'r tymor canolig. Ond nid oedd hyn yn golygu nad oeddent yn meddwl ymhellach i'r dyfodol. Nodwyd llawer o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn meddwl am beth roeddent am ei gyflawni dros yr hirdymor, er bod rhai o'r gweithgareddau hyn o dan anfantais oherwydd diffyg gweledigaeth, camau gweithredu, adnoddau a mesurau hirdymor. Yn gyffredinol, gwelsom fwy o dystiolaeth o feddwl hirdymor na chynllunio hirdymor.

40 Hefyd, nodwyd cyfleoedd i gyrff cyhoeddus gydweithio mwy er mwyn cynllunio at y dyfodol. Byddai hyn yn eu helpu i archwilio materion cysylltiedig a gweithio tuag at ganlyniadau cyffredin, hirdymor sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau.

41 Roedd rhai cyrff cyhoeddus wedi nodi'n glir sut byddent yn mesur cynnydd ac effaith yn yr hirdymor. Ni ddigwyddodd hyn mewn llawer o achosion, ac fe wnaethom ofyn i lawer o gyrff cyhoeddus feddwl am sut gallent wneud hyn. Rydym yn deall bod hyn yn gallu bod yn anodd; mae partneriaid gwahanol yn gysylltiedig â darpariaeth, mae'n gallu bod yn anodd mesur canlyniadau, ac mae angen llawer o adnoddau i wneud hyn yn aml. Serch hynny, mae'n bwysig nodi'r hyn maent am ei gyflawni yn yr hirdymor ac a ydynt ar y trywydd iawn i lwyddo (gweler '**atal**' hefyd).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn hwyluso datblygiad gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru hyd at 2050. Bydd CNC yn monitro'r amgylchedd naturiol yng Nghymru trwy ei Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), gan edrych ar Gymru gyfan, ynghyd â mesurau perfformiad tymor canolig a thargedau blynyddol tymor byr.

Darllenwch yr adroddiad yma.

**Barn yr archwilydd**

Mae'n galonogol bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am beth y mae angen iddynt ei wneud i wella llesiant yn yr hirdymor. Er mwyn llwyddo, mae angen iddynt nodi beth maent am ei gyflawni, sut byddant yn cyflenwi, yn ariannu ac yn mesur hynny, a'r amserlen berthnasol. Rydym eisiau gweld tystiolaeth o feddwl hirdymor sydd wedi'i lywio a'i ategu gan gynllunio hirdymor.

19 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**, Mai 2020

## Buddsoddi ar gyfer y dyfodol

42 Mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl am yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i sicrhau gwelliannau mewn llesiant dros yr hirdymor. Mae angen iddynt ystyried sut gallai peryglon a chyfleoedd lunio eu penderfyniadau buddsoddi, yn ogystal ag effaith debygol defnyddio adnoddau ar hyn o bryd ar yr adnoddau sydd ar gael yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu meddwl am gynaliadwyedd a gwerth ariannol yn yr hirdymor a sut gellid osgoi costau trwy roi camau ataliol ar waith.

43 Nodwyd bod llawer o gyrff cyhoeddus yn buddsoddi ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor trwy ddatblygu gallu, arbenigedd penodol a buddsoddi cyllid craidd neu gyllid grant. Yn aml, roedd cyrff cyhoeddus yn ailgynllunio gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion a sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig a'r hirdymor. Fodd bynnag, os oedd cyrff cyhoeddus yn dibynnu ar gyllid grant, mynegwyd pryderon am gynaliadwyedd hirdymor a 'strategaethau ymadael' (gweler hefyd '**atal**').

44 Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn darparu grantiau yn ogystal â'u derbyn. Nodwyd ychydig o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn gweithio i roi mwy o sicrwydd i'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid ganddynt, neu'n eu hannog i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.

### Materion i gyrff cyhoeddus eu hystyried…

- Datblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o'r ffactorau gwahanol a fydd yn llywio'r dyfodol, a beth y gallai hyn ei olygu.
- Nodi'n glir beth maent am ei gyflawni dros yr hirdymor a sut byddant yn mesur cynnydd ac effaith.
- Buddsoddi adnoddau i sicrhau llesiant dros yr hirdymor.

## Atal

**Pam mae'n bwysig:** Mae atal yn ymwneud â diogelu llesiant pobl a lleoedd trwy gynyddu capasiti, atal problemau neu sicrhau nad ydynt yn gwaethygu. Hefyd, mae'n ymwneud â defnyddio adnoddau yn fwy clyfar ac, yn y pen draw, gwella gwerth a llesiant.

### Y disgwyliad

**Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus…**

Ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall.

**Gallai cyrff cyhoeddus ddangos hyn trwy…**

- Geisio deall achosion sylfaenol problemau er mwyn mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Edrych ar heriau o safbwynt system gyfan, gan nodi a gwerthfawrogi manteision hirdymor y gellir eu sicrhau ar gyfer pobl a lleoedd.
- Dyrannu adnoddau ar gyfer camau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell a defnydd o adnoddau, hyd yn oed os yw hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr.
- Datblygu trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod pwysigrwydd camau ataliol, a derbyn lleihad tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau er mwyn ceisio gwella canlyniadau a'r defnydd o adnoddau.

**Ein canfyddiad:** Mae cyrff cyhoeddus yn meddwl mewn ffordd ataliol, ond weithiau maent yn methu cyfleoedd i wneud hynny neu fesur manteision ataliol ledled y system.

### Meddwl mewn ffordd ataliol

45 Archwiliwyd rhai gweithgareddau a oedd wedi'u dylunio i hyrwyddo gwaith atal. Er enghraifft, prosiectau i leihau'r dirywiad mewn ecosystemau, gwella iechyd a llesiant a sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd.

46 Hefyd, archwiliwyd gweithgareddau lle nad gwaith atal oedd y brif ystyriaeth, er y gallent helpu i sicrhau manteision ataliol ehangach. Er enghraifft, gellid cynllunio'r broses o adfywio canol tref i wella'r economi leol, ond gallai hyrwyddo teithio llesol, gwella ansawdd aer a gwella iechyd a llesiant. Yn yr achosion hyn, roedd cyrff cyhoeddus yn ymwybodol o'r manteision ehangach posibl yn aml, ond nid oeddent yn cynllunio i'w sicrhau na'u mesur bob amser.

47 Nodwyd bod cyrff cyhoeddus yn methu cyfleoedd weithiau i nodi manteision gwaith atal a gweld y cysylltiad rhwng eu gwaith a'r canlyniadau roedd cyrff eraill yn ceisio eu sicrhau. Nid cyfrifoldeb un gwasanaeth neu sefydliad yw camau ataliol, ac mae'n bosibl y bydd angen meddwl arloesol sy'n cysylltu rhannau gwahanol o'r system. Er enghraifft, gallai camau gweithredu gwasanaethau hamdden neu ddiwylliant leihau'r galw am ofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd angen i gyrff cyhoeddus integreiddio agendâu gwahanol a gweithio gydag ystod ehangach o bartneriaid i sicrhau manteision ataliol ehangach. Bydd hyn yn eu helpu i ganolbwyntio ar weithredu'n gynt yn y broses er mwyn rhoi mesurau ataliol 'sylfaenol' ar waith.[20]

20 Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar ddiffiniad o atal gyda Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar bedair haen: atal sylfaenol, atal eilaidd, atal trydyddol a gwario acíwt. Gweler **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol** am ragor o wybodaeth.

## Deall achosion sylfaenol problemau

48 Roedd rhai cyrff yn gallu disgrifio'r rhesymau am rai problemau, neu'r rhesymau am y ffaith eu bod yn gwaethygu. Er enghraifft, y cysylltiad rhwng gweithgarwch corfforol ac iechyd ac iechyd meddwl, neu bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a chanlyniadau wrth i bobl fynd yn hŷn. Roedd cyrff cyhoeddus yn defnyddio ymchwil genedlaethol ar gyfer hyn yn aml, ynghyd â data lleol. Roedd ambell un yn comisiynu ei waith ymchwil ei hun.

49 Nodwyd sawl cyfle i gyrff cyhoeddus wella eu dealltwriaeth o achosion sylfaenol problemau. Mae angen iddynt ddeall y rhesymau am broblemau penodol, a sut maent wedi datblygu o bosibl dros amser, mewn rhai achosion dros genedlaethau lluosog.

50 Rydym yn gwybod bod dadansoddiad cynhwysfawr o achosion sylfaenol yn gallu bod yn heriol yn dechnegol a chymryd llawer o amser. Ni fydd dadansoddiad o'r fath yn ymarferol bob amser. Fodd bynnag, mae cyrff cyhoeddus yn gallu ymchwilio i achosion sylfaenol trwy weithio gyda phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gofyn pam eu bod yn dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd neu wasanaeth neu pam nad yw ymyraethau wedi llwyddo. Gallant gasglu tystiolaeth sy'n eu helpu i ddehongli gwaith ymchwil yn eu cyd-destun lleol. Mae deall achosion sylfaenol, a datblygu dealltwriaeth gyffredin, yn bwysig er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i roi camau ataliol ar waith ledled y system.

## Buddsoddi mewn gwaith atal

51 Nodwyd llawer o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn buddsoddi mewn gwaith atal; yn aml, trwy sicrhau cyllid allanol a defnyddio adnoddau presennol yn fwy clyfar. Roeddent yn dod o hyd i gyllid grant, yn dwyn ffrydiau cyllid ynghyd ac yn addasu rolau a chyfrifoldebau i helpu i sicrhau manteision ataliol.[21]

Bydd prosiect 'Dadansoddi Dysgu Cymru' Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn casglu ac yn dadansoddi data myfyrwyr amser real ac ôl-weithredol er mwyn helpu i wella cymorth i fyfyrwyr a deilliannau dysgu. Hefyd, bydd dadansoddiad o batrymau dysgu yn darparu gwybodaeth ddienw genedlaethol am:

a) beth sy'n achosi deilliannau addysgol gwahanol i fyfyrwyr;
b) llwyddiant neu fethiant ymyraethau cymorth i fyfyrwyr; ac
c) olrhain gwelliannau mewn dysgu ac addysgu ar raglenni unigol.

Darllenwch yr adroddiad yma.

21 I gael rhagor o wybodaeth am y newid tuag at ddarpariaeth ataliol ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, gweler ein hadroddiad **Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion**, Medi 2019.

52 Yn aml, roedd cyrff cyhoeddus yn chwilio am gyllid grant i helpu i symud tuag at fodelau mwy ataliol a sicrhau manteision hirdymor, ataliol. Ond yn aml, nid oedd ganddynt gynllun i barhau â'r gwaith ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

53 Un ffynhonnell cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yw'r Gronfa Gofal Integredig; mae llawer o'r prosiectau'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Yn ôl ein hadroddiad ar y gronfa, er bod Llywodraeth Cymru wedi disgwyl bod prosiectau effeithiol yn cael eu prif ffrydio mewn cyllidebau craidd, mae hyn wedi bod yn anodd oherwydd pwysau ariannol. Mae llawer wedi dod yn wasanaethau craidd mewn gwirionedd, ac mae'n rhaid i bartneriaid rhanbarthol wneud penderfyniadau anodd i roi'r gorau i fuddsoddi mewn rhai gwasanaethau.[22]

54 Mae'n anodd i gyrff cyhoeddus ailgyfeirio adnoddau craidd i ddarparu modelau cyflenwi newydd, ataliol. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys pwysau gofynion, rhwystrau cyllido craidd a dulliau monitro perfformiad sy'n canolbwyntio ar allbynnau. Fodd bynnag, mae angen iddynt ystyried sut i gynnal neu brif ffrydio gweithgareddau sy'n debygol o helpu i reoli galw dros yr hirdymor. Dros amser, bydd angen i gyrff cyhoeddus sicrhau newid ehangach a mwy sylfaenol i weithio mewn ffordd ataliol, gan gysylltu rhannau gwahanol o'u sefydliadau a'u partneriaid. Byddwn yn archwilio hyn ymhellach yn ein gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys trwy ein hadolygiad thematig arfaethedig o 'atal' ledled llywodraeth leol yn 2020-21.

### Barn yr archwilydd

Mae archwilio buddsoddiad mewn gwaith atal yn ffordd bwysig i ni ddeall a yw cyrff cyhoeddus yn sicrhau gwerth am arian ar hyn o bryd ac yn fwy hirdymor, a sut maent yn gwneud hynny. Bydd ein harchwiliadau yn y dyfodol yn ystyried a ydynt yn deall costau a buddion dros amser, ac a yw'r rhain yn llywio'r dewisiadau anodd maent yn gorfod eu hwynebu.

### Mesur gwaith atal

55 Nodwyd bod rhai cyrff cyhoeddus wedi datblygu, neu wrthi'n datblygu, dulliau o fesur gwaith atal. Roedd hyn yn cynnwys mesur yr effaith ehangach, fel yng Nghaerdydd lle mae targedau wedi'u gosod i fesur ymyraethau i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael (gweler **tudalen 47** am ragor o wybodaeth). Hefyd, roedd yn cynnwys gwaith i fesur y gwahaniaeth y mae gwasanaeth wedi'i wneud i unigolion (gweler astudiaeth achos '**Cyswllt**' isod).

22 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Y Gronfa Gofal Integredig**, Gorffennaf 2019.

56 Ar gyfer y rhan fwyaf o gamau a adolygwyd gennym, nid oedd cyrff cyhoeddus wedi nodi dull o fesur effaith gwaith ataliol. Er bod hyn yn anodd, dylai cyrff cyhoeddus ystyried sut i fesur effeithiau ar unigolion, a sut mae eu hymdrechion yn gwella llesiant yn gyffredinol. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith ataliol, llywio penderfyniadau am adnoddau a chryfhau'r achos o blaid cyllid allanol, yn enwedig os yw manteision ehangach yn cael eu sicrhau. Hefyd, mae angen i'r gwaith hwn fod yn ymdrech ar y cyd; mewn gwirionedd, gall cyrff cyhoeddus ond cynllunio ar gyfer gwaith ataliol, a mesur ei effaith, ledled y system gyflenwi. Gall manteision sy'n cael eu sicrhau gan un partner leihau'r galw am un arall. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cysylltu gwaith atal ag integreiddio.

57 At hynny, er mwyn gweithio mewn ffordd ataliol a gwella llesiant, mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall ystyr llesiant i unigolion. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cysylltu cyfranogiad â gwaith atal.[23]

Gan weithio gyda phartneriaid allweddol ac yn defnyddio data, fe aeth Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ati i geisio deall natur unigryw problem tanau bwriadol yn yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys deall patrwm cylchol digwyddiadau, nodi'r arweinwyr cymunedol allweddol, diffyg ymddiriedaeth yn y gwasanaethau brys, a derbyn ymosodiadau tanau bwriadol fel y 'norm'.

**Materion i gyrff cyhoeddus eu hystyried…**

- Manteisio ar gyfleoedd i weithio gydag eraill i roi agenda gwaith atal ehangach ar waith.
- Mesur effaith gwaith atal.
- Buddsoddi yng ngwaith atal a sicrhau bod modd cynnal manteision ataliol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio sut i gefnogi ac ysgogi gwariant ataliol.

23 Gweler hefyd ein hadroddiadau cryno ac atodol ar **Lesiant Pobl Ifanc**, Medi 2019

**Astudiaeth achos – cartrefi cynnes yn Oldham**

Sefydlwyd Cynllun Warm Homes Oldham gan Gyngor Oldham, Grŵp Comisiynu Clinigol y GIG Oldham a Phartneriaeth Buddsoddi Tai Oldham (OHIP) yn 2013. Mae'n cynnig cyngor, cymorth a mesurau arbed ynni i drigolion sy'n wynebu tlodi tanwydd.

Mae Prifysgol Sheffield Hallam wedi gwerthuso'r rhaglen hon, gan ystyried arbedion i'r GIG a manteision economaidd ehangach, trwy ddefnyddio canlyniadau iechyd hunangofnodedig. Arweiniodd buddsoddiad o £250,000 y flwyddyn gan CCG Oldham at fudd ariannol diolch i gynnydd mewn Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (QALYs) rhwng £399,000 a £793,000 gan ddibynnu ar y dull a ddefnyddiwyd. Nododd yr astudiaeth werth £178,000 o gynnyrch domestig gros ychwanegol oherwydd cyfraddau cyflogaeth uwch, gwerth £37,700 o gynnyrch domestig gros ychwanegol oherwydd gostyngiad mewn absenoldeb salwch, a gostyngiad o £137,300 mewn hawliadau budd-daliadau

Ffynhonnell: Ashden Consulting, A toolkit for city regions and local authorities: Chapter 2 Health and Well-being.

**Astudiaeth achos – New Connect: Gwasanaeth Rheoli Pwysau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Ym mis Mai 2019, fe aeth y Bwrdd Iechyd ati i lansio 'Connect', tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Gwent sy'n cydweithio i helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd corfforol ac emosiynol a thrin cymhlethdodau gordewdra. Fe'i datblygwyd fel partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Roedd ffocws hirdymor, ataliol yn ganolog i'r broses o gynllunio'r gwasanaeth. Cydweithiodd aelodau staff er mwyn nodi cost gordewdra ac amcangyfrif y galw presennol a'r galw yn y dyfodol am y gwasanaeth arbenigol, capasiti'r gwasanaeth a'r adnoddau gofynnol o ran cyllid a'r gweithlu. Gwerthuswyd yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio i ofalu am blant a phobl ifanc sy'n ordew er mwyn nodi faint o adnoddau y gellid eu buddsoddi eto yn y gwasanaeth newydd.

Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol i fapio gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra, er enghraifft mewn perthynas â gweithgarwch corfforol a mynediad i ddewisiadau bwyd iach a fforddiadwy. Mae Cyswllt yn helpu i lunio dull system gyfan o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod. Er enghraifft, mae Cyswllt yn cydweithio â thimau Ymwelwyr Iechyd sy'n cyflwyno Rhaglen Plant Iach Cymru a'r Gwasanaeth Nyrsio Iechyd Ysgolion, sy'n rhoi'r rhaglen mesur plentyndod ar waith.

Datblygwyd fframwaith canlyniadau er mwyn llywio darpariaeth a gwelliannau i'r gwasanaeth, monitro canlyniadau clinigol a deall effaith a phrofiad plant a'u teuluoedd. Mae'r mesurau yn cynnwys mesurau canlyniadau arbennig wedi'u cofnodi gan y claf (plentyn), mesurau profiad (plentyn) a mesurau ansawdd bywyd.

Er mwyn datblygu gwasanaeth newydd (y cyntaf yng Nghymru) roedd angen ymddiriedaeth, cyfle i gymryd risgiau a chymorth gan uwch arweinwyr yn y sefydliad i ymrwymo i ddarparu adnoddau pan na fydd canlyniadau yn amlwg yn y tymor byr.

Gweler yr adroddiad yma.

## Integreiddio

**Pam mae'n bwysig:** Mae integreiddio yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fabwysiadu agwedd wahanol; agwedd sy'n ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y cyd. Bydd meddwl mewn ffordd integredig yn helpu cyrff cyhoeddus i sicrhau cydbwysedd rhwng ffactorau gwahanol, nodi amrywiaeth ehangach o fanteision a gweithio mewn ffordd fwy cysylltiedig. Dylai hwyluso gwaith ataliol hefyd.

### Y disgwyliad

| Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus... | Gallai cyrff cyhoeddus ddangos hyn trwy... |
|---|---|
| Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff effeithio ar ei gilydd, neu ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill ac ar y nodau llesiant. | • Sicrhau bod pawb yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r amcanion llesiant.<br>• Sicrhau bod pawb yn deall gwaith adrannau gwahanol o'r sefydliad ac yn chwilio am gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol a'r sector cyhoeddus.<br>• Sicrhau bod pawb yn cydnabod bod gwireddu'r weledigaeth a chyflawni'r amcanion yn dibynnu ar gydweithio.<br>• Datblygu diwylliant agored sy'n rhannu gwybodaeth.<br>• Datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Gweithio mewn ffordd ragweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i'w helpu i gyfrannu at y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol.<br>• Datblygu strwythurau, prosesau ac ymddygiad llywodraethu sy'n cefnogi hyn. |

**Ein canfyddiad:** Yn aml, mae cyrff cyhoeddus yn gallu disgrifio cysylltiadau rhwng eu hamcanion, amcanion eu partneriaid a'r nodau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd eraill ar gael i brosesau integreiddio ychwanegu gwerth a helpu i sicrhau manteision ehangach.

## Gwneud y cysylltiadau

58 Yn aml, roedd cyrff cyhoeddus yn gallu disgrifio rhai o'r cysylltiadau rhwng eu gwaith a'r nodau cenedlaethol neu, mewn termau mwy cyffredinol, sut gallent wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol neu ddiwylliannol.[24] Mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi dogfennu'r cyfraniadau a'r cysylltiadau yn ffurfiol (gweler **paragraffau 65 a 66**).

59 Hefyd, nodwyd bod llawer o gyrff cyhoeddus yn sicrhau cysondeb rhwng eu gweithgareddau hwy a chynlluniau cyrff cyhoeddus eraill a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwelsom enghreifftiau da o waith cynllunio gyda phartneriaid, yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'u hamcanion ym meysydd gweithgarwch cysylltiedig yn aml. Fodd bynnag, roedd llawer o enghreifftiau eraill lle y bu i ni nodi'r angen i ddatblygu neu gryfhau'r cysylltiadau hyn, neu ymestyn ystod y sefydliadau a'r materion roedd cyrff cyhoeddus yn eu hystyried.

60 Nododd llawer o gyrff cyhoeddus fod eu dull gweithredu yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant eu hunain. Gallent ddisgrifio'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hynny a rhannau gwahanol o'u busnes, ac fe welsom rai enghreifftiau da o waith ar draws sefydliadau. Er enghraifft, cydnabu Cyngor Casnewydd fod angen dull system gyfan ar gynllun adfywio canol y ddinas, gan gysylltu'r amgylchedd, diogelwch cymunedol ac iechyd a llesiant. Dangosodd hyn ystyriaeth y cyngor o effaith ar amryw o wahanol amcanion.

61 Roedd adrannau (yn yr un sefydliad) a sefydliadau partner yn gwneud cysylltiadau pwysig mewn meysydd lle mae angen clir am integreiddio yn aml; er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol, gofal cymdeithasol a thai, addysg a hamdden. Fodd bynnag, nodwyd llawer o enghreifftiau lle y gellid cryfhau prosesau integreiddio mewnol. Mae cyfleoedd ar gael i gyrff cyhoeddus fynd ati i'w herio eu hunain i wneud y cysylltiadau llai amlwg a meddwl yn fwy systematig am yr ystod o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar eu hamcanion llesiant eu hunain ac amcanion llesiant eu partneriaid.[25]

24 Gweler hefyd ein hadroddiad, **Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru**, Mehefin 2019.

25 Gweler hefyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Cynnydd tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, Hydref 2019.

**Astudiaeth achos – Chwaraeon Cymru: deall chwaraeon a llesiant**

Comisiynodd Chwaraeon Cymru Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam i ymchwilio i effaith gyffredinol chwaraeon ar lesiant. Archwiliodd y gwaith ymchwil werth (neu fantais gymdeithasol o ganlyniad i fuddsoddiad) chwaraeon i'r genedl, a'u cyfraniad posibl at iechyd, troseddu, addysg, cydlyniant cymdeithasol a llesiant cyffredinol

Darllenwch ein hadroddiad yma.

### Deall a gwerthfawrogi integreiddio

62 Mae integreiddio yn ganolog i'r Ddeddf. Bydd angen i gyrff cyhoeddus gymryd integreiddio o ddifrif os ydynt am ddefnyddio'r Ddeddf i ychwanegu gwerth at eu gwaith.

63 Mae gan integreiddio ffocws unigryw o dan y Ddeddf. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y cyd. Bydd cyrff cyhoeddus sy'n defnyddio'r dull gweithredu hwn yn mabwysiadu agwedd ehangach ac yn sicrhau cydlyniant rhwng eu gweithgareddau eu hunain a gwaith eraill. Mae integreiddio yn rhagflaenu cydweithio effeithiol ac mae'n gallu hwyluso ymateb ledled y system, gan alluogi cyrff cyhoeddus i weithio mewn ffordd ataliol. Yn y pen draw, mae'n golygu eu bod yn gallu sicrhau manteision ehangach ar gyfer pobl a lleoedd.

64 Nodwyd gennym fod y term 'integreiddio' yn cael ei gamddeall o hyd weithiau, a bod pobl yn meddwl ei fod yn golygu 'integreiddio gwasanaethau' neu 'gydweithio' rhwng sefydliadau. Priodolir hyn yn rhannol i'r iaith a ddefnyddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

65 Mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yn llawn ac yn dangos integreiddio. Nodwyd cyfleoedd i gyrff cyhoeddus ddangos y cysylltiadau hyn yn fwy clir ac amlwg.

66 Fodd bynnag, mae yna berygl o drin integreiddio fel ymarferiad biwrocrataidd, gan ganolbwyntio ar ddangos y cysylltiadau rhwng camau ac amcanion llesiant neu'r nodau cenedlaethol. Mae ôl-osod amcanion a chamau gweithredu, neu eu cysoni mewn ffordd arwynebol, yn methu cyfle ac yn gwastraffu amser.

**Barn yr archwilydd**

Mae'n bwysig gweld y cysylltiadau ym maes integreiddio, ond mae angen gofyn 'beth yw eu hystyr?' Mae'n dda gweld cysylltiadau clir rhwng dogfennau strategol, ond pa wahaniaethau ymarferol sy'n deillio ohonynt, sut maent yn llywio syniadau a beth fydd yn wahanol o ganlyniad?

**Astudiaeth achos – Partneriaeth Bwyd Da Nottingham: gwella iechyd a lleihau ôl troed carbon bwyd**

Ariennir y Nottingham Good Food Partnership yn rhannol gan Gyngor Dinas Nottingham. Mae'n gynghrair sy'n tyfu o dros 50 o sefydliadau sy'n cydweithio i weddnewid cynaliadwyedd system bwyd lleol Nottingham.

Fel rhan o'r Rhwydwaith Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy, mae'r Bartneriaeth yn ceisio gwella iechyd a llesiant pawb a chreu Nottingham sy'n fwy cysylltiedig, cryf a chynaliadwy.

Mae'n mynd i'r afael â sawl mater allweddol gan gynnwys:

- hyrwyddo pwysigrwydd bwyd iach a chynaliadwy i'r cymunedau lleol amrywiol;
- gweithio tuag at economi fwyd gylchol;
- lleihau ôl troed ecolegol y system fwyd yn sylfaenol; a
- cheisio sicrhau gwastraff bwyd bwytadwy sero.

Ffynhonnell: Ashden Consulting, A toolkit for city regions and local authorities: Chapter 2 Health and Well-being

**Astudiaeth achos – Yr Alban: datblygu gwlad sy'n wyrddach ac yn decach**

Mae Llywodraeth yr Alban wedi sefydlu 'Just Transition Commission' i gynghori Gweinidogion ar sut gellir cymhwyso 'egwyddorion pontio teg' i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn yr Alban. Y nod yw sicrhau bod modd cyrraedd targedau hinsawdd ac ystyried effeithiau economaidd a chymdeithasol gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd:

> 'The imperative of a just transition is that Governments design policies in a way that ensures the benefits of climate change action are shared widely, while the costs do not unfairly burden those least able to pay, or whose livelihoods are directly or indirectly at risk as the economy shifts and changes.'

Mae adroddiad interim y Comisiwn ar gael yma. Bydd yn rhannu ei argymhellion terfynol â Gweinidogion yr Alban erbyn Ionawr 2021.

**Materion i gyrff cyhoeddus eu hystyried…**

- Deall ystyr prosesau integreiddio a sut gallant eu defnyddio i ychwanegu gwerth at eu gwaith.
- Eu herio eu hunain i ehangu eu syniadau er mwyn deall yn well sut gallant fanteisio ar bob cyfle i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

## Cydweithredu

**Pam mae'n bwysig:** Mae cydweithredu yn nodwedd sydd wedi'i hen sefydlu o bolisi a darparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae meddwl am gydweithredu ochr yn ochr â'r ffyrdd eraill o weithio yn helpu i ddiffinio pam mae'n bwysig a'r hyn mae'n gallu ei gyflawni. Trwy gydweithio mae cyrff cyhoeddus yn gallu cael effaith ehangach, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau, a'u hatal rhag digwydd yn y dyfodol.

### Y disgwyliad

| Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus... | Gallai cyrff cyhoeddus ddangos hyn trwy... |
|---|---|
| Ystyried sut y gallai cydweithredu ag eraill helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant neu helpu corff arall i gyflawni ei amcanion. | • Ganolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Deall amcanion a chyfrifoldebau partneriaid, sy'n helpu i ysgogi gweithgarwch cydweithredol.<br>• Datblygu perthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, gan rannu gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Cydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau posibl pob partner.<br>• Ceisio sefydlu prosesau a dulliau gweithio cyffredin lle bo hynny'n briodol. |

**Ein canfyddiad:** Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o gydweithredu yn bodoli, ond nodwyd bod cyfleoedd ar gael i gyrff cyhoeddus weithio gydag ystod ehangach o bartneriaid er mwyn cynyddu effaith. Hefyd, gallent barhau i gryfhau eu harferion cydweithredu trwy adolygu eu heffeithiolrwydd a chymhwyso'r hyn a ddysgir ganddynt.

### Gweithio gyda'r partneriaid priodol

67 Nodwyd llawer o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau canlyniadau cyffredin. Mewn rhai achosion, roedd ystod y partneriaid yn eang, wedi'u cydgysylltu'n aml trwy 'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mewn achosion eraill gyda phartneriaid rhanbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu'r bargeinion dinas-ranbarth a thwf. Fodd bynnag, nodwyd cyfleoedd gwerthfawr i gyrff cyhoeddus weithio gyda phartneriaid gwahanol (mewnol ac allanol) i gynyddu ac ehangu eu heffaith (gweler hefyd '**integreiddio**' ac '**atal**').

68 Nodwyd llawer o ymddiriedaeth, parch gan y naill at y llall a dealltwriaeth gyffredin rhwng partneriaid ar gyfer llawer o'r enghreifftiau a adolygwyd gennym. Disgrifiodd y cyrff cyhoeddus hyn sut roeddent yn gwerthfawrogi eu partneriaid, gan gydnabod yr angen i weithio gydag eraill i sicrhau canlyniadau gwell.

69 Gwelsom enghreifftiau o ddarpariaeth gydgysylltiedig, gan gynnwys trwy brosesau a rennir, timau amlasiantaeth wedi'u cyd-leoli, a grwpiau llywio amlasiantaeth. Fodd bynnag, fe welsom rai enghreifftiau o brosesau nad oeddent wedi'u datblygu'n llawn yn amharu ar y gwaith. Mae enghreifftiau'n cynnwys rolau a threfniadau aneglur, diffyg gweledigaeth gyffredin a heriau rhannu data.

70 Mae llawer o waith partneriaeth yn cael ei gydgysylltu trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, nododd ein hadroddiad ar '**Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**' fod presenoldeb anghyson ac ymdeimlad ymysg rhai cynrychiolwyr trydydd sector fod yr agenda yn eiddo i'r awdurdod lleol yn lleihau effeithiolrwydd a chydberchenogaeth. Hefyd, nododd yr adolygiad fo d Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwahodd ystod eang o sefydliadau i gymryd rhan, ond bod cyfleoedd yn bodoli i gynnwys partneriaid eraill, gan gynnwys partneriaid o'r sector preifat a grwpiau ffydd.[26]

**Barn yr archwilydd**

Rydym wedi parhau i ystyried trefniadau – byddant yn bwysig bob amser – ond mae cydweithredu effeithiol yn dibynnu ar **gysylltiadau ac ymddiriedaeth**. Rydym wedi archwilio'r naill a'r llall yn yr astudiaeth hon, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn ein gwaith yn y dyfodol.

## Canfod a darparu adnoddau cydweithredu

71 Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi amlinellu rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllid grant (gweler '**atal**'). Nododd ein hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod adnoddau a chapasiti yn risgiau allweddol, ac mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo bod angen ffrwd gyllido bwrpasol ar eu cyfer.[27]

26 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Hydref 2019.

27 Ibid.

72 Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael gafael ar gyllid trwy'r Gronfa Gofal Integredig. Daeth adroddiad 2019 ar y gronfa i'r casgliad ei bod wedi 'helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau'. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad hefyd fod gorwelion ariannu tymor byr yn rhwystro darpariaeth ranbarthol.[28]

73 Aeth y Comisiynydd ati hefyd i nodi bod y gwahaniaeth rhwng canfod a darparu adnoddau yn y ddwy bartneriaeth gysylltiedig hyn yn peri pryder iddo, gan nodi bod hyn:

> '…wedi golygu bod sylw staff y Bwrdd Iechyd yn aml yn cael ei gyfeirio oddi wrth waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus at Fyrddau Partneriaethau Rhanbarthol, lle mae cyfle i wella llesiant yn fwy cyfyngedig'.[29]

Mae hyn oherwydd bod gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynrychiolaeth ehangach a'r potensial i ddylanwadu ar benderfynyddion iechyd ehangach.[30]

74 Mae rhai cyrff cyhoeddus yn cael trafferthion gyda'r capasiti i weithio mewn partneriaeth, ar lefel strategol a gweithredol. Amlygodd ei hadroddiad 'blwyddyn un' yr anawsterau mae cyrff llai o faint a chyrff cenedlaethol yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Asesu effaith ac effeithiolrwydd cydweithrediad

75 Gwelsom fod angen i rai cyrff cyhoeddus sicrhau y gallent asesu effaith gweithgarwch a chynnydd tuag at amcanion llesiant. Fodd bynnag, mae'r heriau o ran mesur effeithiau ataliol hirdymor sydd eisoes wedi'u hamlinellu'n glir yn ymwneud hefyd â mesur effaith gweithgareddau cydweithredol.

76 Rhoddwyd sylw gennym hefyd i gyfleoedd i gyrff cyhoeddus asesu effeithiolrwydd eu gweithgarwch cydweithredol. Gwelsom rai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn gwneud hyn trwy straeon pobl, gwaith craffu a gwerthusiad ffurfiol. Mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall a yw eu gwaith cydweithredu yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol, a ydynt yn dal i fod yn addas i'r diben a sut gallant gryfhau gwaith partneriaeth yn y dyfodol.

28 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Gronfa Gofal Integredig, Gorffennaf 2019.

29 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Cynnydd Tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, Hydref 2019.

30 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**, Mai 2020.

77 Gwelodd ein hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod trefniadau craffu yn 'rhy anghyson ac amrywiol' ac 'er gwaethaf peth gwaith cadarnhaol ac effeithiol i wreiddio craffu a'i wneud yn wirioneddol effeithiol, mae gofyn gwneud rhagor o waith i sicrhau lefel gyson o berfformiad ac effaith'.[31]

78 Yn yr un modd, gwelodd ein hadroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig, 'er bod enghreifftiau cadarnhaol, nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn glir o hyd'.[32]

**Astudiaeth achos – Rhaglen Llesiant Gogledd Powys, Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Mae Rhaglen Llesiant Gogledd Powys (NPWBP) yn canolbwyntio ar ddatblygu model cyflenwi integredig newydd yng Ngogledd Powys. Mae'n uno partneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector gyda chysylltiadau â gwasanaethau addysg, tai, hamdden, yr heddlu ac ambiwlans.

Mae cwmpas NPWBP yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol i gyd-ddylunio, profi a darparu model integredig newydd i boblogaeth wledig. Mae'r rhaglen wedi defnyddio dull cadarn ac arloesol i grynhoi a delweddu data Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Enghraifft o hyn yw'r Banc Gwybodaeth Llesiant ac Asesiad Poblogaeth Gogledd Powys sydd ar gael ar-lein yma. Y bwriad yw defnyddio'r data wedi'i ddelweddu i helpu i ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion wrth ddatblygu NPWBP.

Gallwch weld yr adroddiad yma.

31 Ibid.

32 Ibid.

### Astudiaeth achos – Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf (GMCA): Adnodd Dadansoddi Cost a Budd Partneriaethau

Mae GMCA yn cynnwys deg awdurdod lleol a Maer Manceinion Fwyaf, sy'n gweithio gyda phartneriaid eraill, ac yn gwasanaethu dinas-ranbarth o 2.8 miliwn o bobl. Mae GMCA wedi cael cyfres o 'fargeinion datganoli' hefyd, gan roi mwy o bwerau a rheolaeth dros gyllidebau i'r rhanbarth.

Ceisiodd GMCA ddatblygu dull cadarn o ddeall sut mae buddion – boed hynny i'r cyhoedd, i bwrs y wlad, i'r blaned neu i'r economi ehangach – yn debygol o gael eu cronni gan wahanol sefydliadau a chymunedau. Bu'r GMCA yn gweithio gyda New Economy i gynhyrchu ei fodel 'Dadansoddi Cost a Budd Partneriaethau' (CBA), sy'n eu helpu i ystyried y gwerth am arian a gynigir gan wahanol ymyriadau a fyddai'n anodd eu cymharu fel arall. Mae'n mesur buddion economaidd a buddion cymdeithasol, gan gynnwys gwell iechyd a llesiant. Mae'n helpu i lywio penderfyniadau trwy ddangos sut mae arian yn llifo rhwng sefydliadau sy'n buddsoddi a'r rhai sy'n cronni'r buddion.

Mae'r model CBA wedi'i ddefnyddio gan wahanol sectorau a'i gymhwyso mewn perthynas â gwahanol faterion. I gael mwy o wybodaeth, dilynwch y ddolen hon.

### Pethau i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt…

- Gweithio gyda'r ystod briodol o bartneriaid i sicrhau y gallant ddarparu ystod ehangach o fuddion, gan gynnwys dulliau atal ar draws y system.
- Asesu effeithiolrwydd cydweithredu, gan bennu a yw'n cyflawni'r canlyniadau bwriedig ac yn defnyddio'r dysgu i'w helpu i wella.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gall gymell a galluogi cyrff cyhoeddus (gan gynnwys trwy lifau ariannu) i weithio gyda'i gilydd i gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol.[33]

33 Gweler hefyd argymhelliad 3 yn ein hadroddiad Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Cynnwys

**Pam mae'n bwysig:** Gall cynnwys helpu cyrff cyhoeddus i ddeall beth sydd ei angen ar bobl a beth maent ei eisiau nawr ac yn y dyfodol; sut gallant fynd i'r afael â gwreiddiau problemau; a sut gallant nodi cyfleoedd i ddarparu ystod ehangach o fuddion.

### Y disgwyliad

**Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus…**

Ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.

**Gallai cyrff cyhoeddus ddangos hyn trwy…**

- Ddeall pwy sydd angen cael eu cynnwys a pham.
- Myfyrio ar ba mor dda mae'r anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny yn cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio'n gydgynhyrchiol â rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel gwybodaeth hanfodol i helpu i gyflawni gwell canlyniadau.
- Sicrhau bod yr ystod lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ac yn gallu cymryd rhan.
- Meithrin perthynas aeddfed a llawn ymddiriedaeth â'i randdeiliaid.
- Rhannu â rhanddeiliaid mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella.

**Ein canfyddiad:** Yn aml, nid yw cyrff cyhoeddus yn creu cyfleoedd i ddinasyddion gymryd rhan yn y cyfnodau dylunio cynnar a'r cyfnod gwerthuso, ac mae angen iddynt wneud mwy i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth.

**Cynnwys: Beth a phryd?**

79 Mae'r diffiniad o gynnwys yn y Ddeddf ac mewn canllawiau yn herio cyrff cyhoeddus i fynd ymhellach trwy 'gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt'.[34] Mae hyn yn awgrymu proses agored ac iterus a rennir - sy'n well na cheisio cael gwybodaeth a ddiffinnir yn fwy cul ar bwynt penodol mewn amser. Mae'n awgrymu y dylai cyrff cyhoeddus siarad â phobl yn gynnar ac edrych am gyfleoedd i'w cynnwys o'r cyfnod cyflenwi i'r gwerthusiad.

80 Gwelsom lawer o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn ceisio cael barn y cyhoedd a rhanddeiliaid i helpu i lywio eu gweithgareddau. Ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu oedd yr enghreifftiau hyn yn aml, gyda'r nod o gael barn pobl am faterion penodol fel rhan o'r broses o ddylunio gweithgarwch penodol. Roedd cyrff cyhoeddus yn siarad â fforymau a rhwydweithiau sydd wedi hen ennill eu plwyf i ymgysylltu â grwpiau penodol. Mewn rhai achosion, roeddent yn manteisio ar arbenigedd eraill i'w helpu i gysylltu â'r cyhoedd, gan gydnabod nad oeddent bob amser yn y sefyllfa orau i wneud hynny eu hunain.

81 Gwelsom rai enghreifftiau o gyrff yn cynnwys y cyhoedd yn gynnar, gan weithio gyda nhw i lywio dyluniad gwasanaethau neu adeiladau newydd. O fynd un cam ymhellach, gallai cyrff cyhoeddus ystyried sut maent yn cynnwys pobl yn y gwaith o 'ddiffinio problem', h.y. beth maent yn ceisio ei ddatrys a pham. Gallai hyn eu helpu i ddeall gwreiddiau problemau a helpu i nodi atebion ataliol sy'n gwella llesiant. Gall cynnwys pobl yn gynnar helpu i sicrhau mwy o werth am arian trwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn dylunio gwasanaethau mae pobl eu heisiau a'u hangen, a'u bod yn ei wneud yn iawn y tro cyntaf.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweithio gyda theuluoedd i ddylunio canolfannau teulu.

Mae teuluoedd wedi helpu i lunio cysyniad y ganolfan deuluol; lleoliad canolfannau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig; a'r ffordd y mae canolfannau'n mesur canlyniadau.

Darllenwch yr adroddiad yma.

34 Llywodraeth Cymru, '**Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol' – canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, 2016.

82 Mae rhai cyrff cyhoeddus yn defnyddio iaith 'cyd-gynhyrchu', sy'n ddull mwy radical o weithio gydag eraill, a nodweddir gan rannu pŵer a chyfrifoldeb.[35] Fe wnaethom archwilio rhai camau lle roedd pobl a grwpiau cymunedol yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu atebion. Gwelsom rai enghreifftiau nodedig yng nghyrff y GIG, lle mae cleifion a chyn-gleifion yn rhannu eu profiadau er mwyn llywio eraill neu hyrwyddo materion penodol. Roedd enghreifftiau eraill o gyrff cyhoeddus yn recriwtio gwirfoddolwyr ac yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a oedd yn rheoli mannau cyhoeddus.

83 Gwelsom rai enghreifftiau lle roedd cyrff cyhoeddus yn gweithio gydag unigolion yn uniongyrchol i'w cynnwys mewn penderfyniadau am eu llesiant a'r gwasanaethau maent yn eu derbyn, gan ddefnyddio dull 'seiliedig ar gryfderau' yn aml. Roedd hyn yn cynnwys sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' a gynhaliwyd fel rhan o waith o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[36] Daeth ein hadroddiad **Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion** i'r casgliad bod awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd da

> '…a bu newid cadarnhaol mewn pwyslais tuag at asesiadau sy'n seiliedig ar gryfderau, sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' a sicrhau bod gan ddinasyddion lais, dewis a rheolaeth'.[37]

Mae Rhaglenni Addysg i Gleifion (EPP) Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnig cyfleoedd addysgol i bobl roi ar waith newidiadau i wella eu hiechyd a'u lles yn enwedig y rhai sy'n byw gyda chyflwr tymor hir/cronig a'u teuluoedd. Mae staff a gwirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r rhaglenni. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio i roi eu persbectif personol; er enghraifft, o ran iechyd meddwl, anabledd, camddefnyddio sylweddau, a hunaniaeth o ran rhywedd.

35 Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn diffinio **cydgynhyrchu** fel:

'…agwedd tuag at wasanaethau cyhoeddus a seilir ar asedau sy'n galluogi'r bobl sy'n darparu ac yn derbyn y gwasanaethau i rannu'r grym a'r cyfrifoldeb, a chydweithio trwy gysylltiadau cyfartal, cyfatebol a gofalgar. Mae'n creu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gymorth pan fo'i angen, ac i gyfrannu at newid cymdeithasol.'

36 'Mae Deddf 2014 a'i Chodau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymarferwyr weithio gydag unigolion fel partneriaid cyfartal – gan rannu pŵer a bri trwy gydgynhyrchu'r sgwrs 'beth sy'n bwysig'.' Gofal Cymdeithasol Cymru.

37 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y **'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion**, Medi 2019.

84 Gwelsom rai enghreifftiau hefyd o gyrff cyhoeddus yn gofyn am sylwadau ac ymateb iddynt yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys creu cyfleoedd am adborth 'amser real', gan ddefnyddio technoleg ddigidol yn aml. Fodd bynnag, hefyd fe herion ni gyrff i ystyried sut gallent ofyn am sylwadau defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau ac ymateb iddynt yn rheolaidd. Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau wneud sylwadau a chyfrannu at eu gwelliant parhaus.

85 Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn dal i ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy aml nag y maent yn cynnwys. Yn yr un modd, gwelodd ein hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu bod nhw wedi 'tueddu... i ddilyn dulliau traddodiadol sy'n canolbwyntio ar hysbysu yn hytrach na chynnwys pobl'.[38]

86 Efallai fod y diffiniad yn fwy eang, ond mae awydd wedi bod ers tro byd i annog gwasanaeth cyhoeddus mwy ymatebol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yng Nghymru. Dylai gofynion deddfwriaethol presennol, ochr yn ochr â'r Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, fod wedi bod yn sail dda i gyrff cyhoeddus 'gynnwys' pobl. Fodd bynnag, mae canfyddiadau o'n harchwiliadau ac adolygiadau eraill, ac o waith a gyflawnwyd gan y Comisiynydd, yn dangos bod llawer i'w wneud o hyd.

87 Mae angen i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut i symud i ffordd fwy agored, ymatebol a chynhwysol o weithio gydag eraill. Bydd lefel y cynnwys yn amrywio, ond mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus herio eu hunain i edrych am gyfleoedd i gynnwys eraill gydol y cyfnodau dylunio a darparu.

### Cynnwys: Pwy?

88 Fe wnaethom ni herio llawer o gyrff cyhoeddus i gynnwys ystod ehangach o bobl wrth ddylunio a darparu. Nodwyd rhai achosion lle nad oedd rhai rhanddeiliaid a allai ychwanegu gwerth wedi'u cynnwys. Nodwyd hefyd gyfleoedd i gyrff cyhoeddus fynd y tu hwnt i gynnwys sefydliadau partner, grwpiau cymunedol neu ddefnyddwyr gwasanaethau presennol hyd yn oed a siarad yn uniongyrchol â'r cyhoedd neu'r rhai a all ddefnyddio gwasanaeth neu gyfleuster yn y dyfodol.

38 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Hydref 2019.

89 Gwelsom lawer o enghreifftiau lle roedd angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth. Mae angen iddynt feddwl am y ffordd orau o gynnwys pobl agored i niwed a'r rhai â gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gydnabod y bydd penderfyniadau a gweithgareddau yn effeithio ar wahanol bobl yn wahanol.[39] Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddynt ddeall cyfansoddiad eu poblogaethau, defnyddio dulliau priodol a neilltuo digon o amser i'r broses.

90 Mae cyrff cyhoeddus yn cael cyfle i gysylltu eu cyfraniad â'u dyletswyddau cydraddoldeb, sy'n cynnwys ymgysylltu a chynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Byddai hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn gwrando ar wahanol leisiau a myfyrio arnynt wrth wneud penderfyniadau.

91 Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn adolygu effeithiolrwydd eu gweithgarwch cynnwys. Gallent adolygu cyfradd ac amrywiaeth ymatebion a gofyn am adborth ar ansawdd y broses i helpu i ddysgu gwersi i'r dyfodol. Gallai nifer y bobl sy'n cael eu cynnwys fod yn fesur pwysig, ond dylai cyrff cyhoeddus adolygu canlyniadau'r cynnwys hefyd. Gallai hyn gynnwys yr effaith a phrofiad pobl o'r broses.

39 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu naw nodwedd warchodedig; oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

**Astudiaeth achos – Cyngor Caerdydd: Gweithio gydag eraill i ddatblygu'r 'syniadau mawr' ar gyfer teithio cynaliadwy**

Ym mis Mawrth 2018, lansiodd y cyngor ei Bapur Gwyrdd ar Drafnidiaeth ac Aer Glân yn cynnwys 18 o 'syniadau mawr' ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yn y ddinas. Roedd y syniadau hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o fentrau megis; 'Dyfodol y Metro a bysiau', 'Parthau Aer Glân', 'priffordd feicio gynhwysfawr a rhwydwaith prif lwybrau beicio' a 'cherbydau ymreolaethol'. Un o brif sbardunau'r gwaith hwn oedd ymchwil gan y Tîm iechyd cyhoeddus lleol a oedd yn dangos yn glir bod gan fuddsoddiad mewn teithio cynaliadwy a llesol fanteision ataliol tymor byr a thymor hir ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd a llesiant.

Mae'r rhain yn newidiadau mawr a allai fod yn amhoblogaidd ymhlith rhai pobl, felly roedd y cyngor eisiau ymgysylltu â'i ddinasyddion i helpu i flaenoriaethu'r mentrau. Yn gynnar yn 2018, cynhaliodd broses ymgynghori eang, annibynnol â chanddi adnoddau da. Roedd hyn yn cynnwys arolwg a gafodd dros 3,500 o ymatebion, sgyrsiau wyneb yn wyneb â grwpiau na chlywir ganddynt yn aml a sesiynau fel rhan o wersi daearyddiaeth mewn ysgolion uwchradd. Mae'r canlyniadau wedi llywio yn uniongyrchol y Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Aer Glân a gyhoeddwyd yn 2019.

I gael mwy o wybodaeth am ymagwedd Caerdydd at deithio cynaliadwy ac aer glân, dilynwch y ddolen hon i Bapur Gwyrdd y cyngor.

Darllenwch yr adroddiad yma.

**Astudiaeth achos – Amgueddfa Cymru: Cynnwys pobl eraill yn nyfodol Sain Ffagan**

Aeth Amgueddfa Cymru ati i sefydlu 'fforymau cyfranogiad' a ffyrdd cydweithredol eraill o weithio i gynnwys pobl yn y gwaith o ailddatblygu Amgueddfa Werin Cymru. Mae'r fforymau wedi rhoi cyfle i nifer fawr o bobl o wahanol gefndiroedd lywio gwaith yr amgueddfa.

Enillodd y dull hwn 'Wobr Amgueddfa y Flwyddyn y Gronfa Gelf' yn 2019, ac fe'i disgrifiwyd gan gadeirydd y panel beirniadu fel 'a monument to modern museum democracy… a major development project involving the direct participation of hundreds of thousands of visitors and volunteers, putting the arts of making and building into fresh contexts – social and political, historic and contemporary'.

Darllenwch yr adroddiad yma.

**Pethau i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt…**

- Cynnwys pobl eraill yn y cyfnodau cynllunio a phenderfynu, o'r cyfnodau cynnar o ddiffinio problemau i ddarparu a gwerthuso'r atebion.
- Creu cyfleoedd i bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gael eu cynnwys. Mae hyn yn golygu defnyddwyr gwasanaethau presennol a phosibl ac amrywiaeth lawn y boblogaeth.
- Gofyn am adborth, dysgu a gwella dulliau cynnwys.

# Felly, beth nesaf?

## Beth nesaf i gyrff cyhoeddus?

### Yr heriau o'u blaenau

92 Bwriad y Ddeddf yw gwneud newidiadau i ddiwylliant ac ymarfer a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu Cymru, nawr ac yn yr hirdymor. Mae canfyddiadau o'n hadroddiad yn 2018 yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cydnabod y dylai'r Ddeddf fod yn ganolog i'r hyn maent yn ei wneud, ac y gall eu helpu nhw i ddylunio a darparu mwy o wasanaethau cynaliadwy a gwell canlyniadau.[40]

93 Mae'r cyfnod adrodd cychwynnol o 2015-2020 wedi bod yn gyfnod o newid mawr, gyda chyfuniad o ffactorau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol arwyddocaol wedi effeithio ar dueddiadau, strategaethau a chynlluniau. Mae materion neu heriau newydd – rhai yr oedd modd eu rhagweld ac eraill yn annisgwyl – wedi codi neu ddod yn fwy amlwg. Un ffactor cyson yw'r pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus, er gwaethaf lleddfu rhywfaint o'r cyni o ran cyllid cyhoeddus a gychwynnodd yn 2008. Ar gyfer Cymru yn 2020, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r pwysau digynsail yn sgil y pandemig COVID-19, mae'r heriau a'r problemau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn gymhleth ac enfawr.

94 Mae **Arddangosyn 5** yn edrych ymlaen at y cyfnod adrodd nesaf (2020-2025), gan roi trosolwg o bedwar o'r prif heriau y bydd rhaid i'r rhai sy'n arwain gwasanaethau cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â nhw.

95 Yn y cyfnod adrodd nesaf, byddwn yn disgwyl gweld cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframwaith y Ddeddf i fynd i'r afael â'r heriau hyn a heriau eraill. Wrth ystyried gosod amcanion llesiant, byddwn yn disgwyl y bydd y tueddiadau allweddol hyn wedi'u hystyried. Wrth ddatblygu ein rhaglenni gwaith archwilio, byddwn yn ystyried arwyddocâd gweithgareddau a'r cyfraniad y maent yn ei wneud at gyflawni amcanion llesiant.

40 Archwilydd Cyffredinol Cymru **Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** Mai 2018.

## Arddangosyn 5 – Pedair her fawr i wasanaethau cyhoeddus Cymru o 2020-2025

### Effaith y pandemig COVID-19

Mae'r ymateb i'r argyfwng Covid-19 yn canolbwyntio ar achub bywydau a rhoi mesurau ar waith i leihau'r effeithiau economaidd ar fusnesau ac unigolion.

Mae goblygiadau ehangach yr argyfwng yn hynod gymhleth ac yn debygol o fod â chanlyniadau eang dros yr hirdymor, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Mae'n ymddangos bod cyrff cyhoeddus yn debygol o ddod trwy'r cyfnod hwn gyda chysylltiadau cydweithredol cryfach fyth, gan eu bod wedi cefnogi ei gilydd gydag ymrwymiad a medr yn wyneb yr argyfwng. Dylai hyn eu rhoi mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r effeithiau tymor canolig a hwy. Gall fframwaith y Ddeddf helpu i feithrin y rhagwelediad a'r gwydnwch sy'n gallu sicrhau bod cyrff mewn sefyllfa dda i gynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt.

### Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

Mae anghydraddoldeb yn parhau i fod yn fater pwysig iawn yng Nghymru. Mae 'bwlch sydd hyd yn oed yn fwy rhwng profiadau a chyfleoedd gwahanol bobl, yn enwedig pobl sy'n cael eu geni i dlodi, pobl anabl, a rhai grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru'.[42]

Mae tystiolaeth yn dangos bod anghydraddoldebau iechyd wedi parhau i dyfu.[43] Mae digartrefedd wedi codi yn ddramatig ers 2015-16, er gwaethaf y cynnydd yn y gwariant ar ddigartrefedd. Bydd angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy fyth i wella llesiant grwpiau difreintiedig, yn erbyn cefndir cymdeithasol ac economaidd heriol wrth i Gymru geisio mynd i'r afael ag effeithiau tymor canolig a hwy yr argyfwng COVID-19.

### Y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fater sy'n dod yn fwyfwy amlwg mewn trafodaethau cyhoeddus a gwleidyddol, wrth i wledydd o bedwar ban byd ei chael hi'n anodd cyflawni eu rhwymedigaethau i leihau allyriadau carbon. Mae Gweinidogion Cymru ac 11 awdurdod lleol wedi datgan 'argyfwng hinsawdd', ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Rydym yn dibynnu ar fioamrywiaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys rheoleiddio'r hinsawdd a lleihau effaith peryglon naturiol, megis y llifogydd difrodus a gafwyd yn y De ym mis Chwefror 2020. Ond mae bioamrywiaeth yn dirywio yn gyflymach nag erioed a penderfynodd Fforwm Economaidd y Byd gynnwys colli bioamrywiaeth a chwymp yr ecosystem fel un o'i dair prif risg fyd-eang yn 2020.[41]

Un her allweddol fydd sut gall Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sicrhau pontio teg i economi carbon isel, a sut gallant ddiogelu'r rhai mwyaf difreintiedig rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

### Y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn ddigwyddiad hanesyddol a fydd yn cael effaith hynod sylweddol ar y sector cyhoeddus cyfan, gan gynnwys yma yng Nghymru.

Er bod trafodaethau ynghylch natur perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd i'r dyfodol yn parhau, mae llawer o ansicrwydd o hyd. Fodd bynnag, mae risgiau 'dim cytundeb' yn ymddangos yn sylweddol a, beth bynnag fydd y canlyniad yn y pen draw, bydd angen i'r effeithiau tymor byr, canolig a hwy gael eu rheoli'n ofalus.[44]

O'i ystyried mewn cyfuniad ag effeithiau'r pandemig COVID-19, sy'n dal i ddatblygu, a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ac economïau ledled y byd o ganlyniad i hynny, mae'n glir y bydd statws masnachu newydd y DU yn arwain at bob math o heriau, risgiau a chyfleoedd newydd.

41 'Top risks are environmental, but ignore economics and they'll be harder to fix', Fforwm Economaidd y Byd 15 Ionawr 2020

42 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, **A yw Cymru'n Decach?** 2018

43 Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Disgwyliad Oes a Marwolaethau yng Nghymru**, 2020

44 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'**, Chwefror 2019

## Beth nesaf i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

96 Mae gwasanaethau cyhoeddus yn newid. Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig newidiadau sylweddol ym maes llywodraethu, gan gynnwys pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol a sefydlu cydbwyllgorau. Bydd y newidiadau hyn yn rhan o system gymhleth o bartneriaethau lleol a rhanbarthol, sy'n pontio gwahanol sectorau ac amrywiol ddaearyddiaeth. Mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth, gan geisio llywio'r trefniadau hyn i fynd i'r afael â phroblemau amlweddog.

97 Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y potensial i ddarparu diben cyffredin a diwylliant cyson, i symleiddio rhywfaint o'r cymhlethdod hwn. Fodd bynnag, bum mlynedd ers ei chyflwyno, rydym wedi dysgu llawer am y Ddeddf a'i dulliau ymarferol.

98 Bydd angen i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r Ddeddf wrth fynd i'r afael â'r prif heriau a amlinellir yn **Arddangosyn 5**. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, bydd angen goresgyn y rhwystrau i weithredu llwyddiannus a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ac yn adroddiad y Comisiynydd. Byddai ystyriaeth gynnar o ran sut i gyflawni hyn, gan y Senedd a Llywodraeth Cymru ar ôl yr etholiad nesaf, yn helpu Cymru i barhau i fod ar flaen y gad o ran gweithredu i wella llesiant a chynnal ei henw da fel arweinydd byd-eang ar ddatblygu cynaliadwy.

### Argymhelliad 1

Felly, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell:

- y dylai'r **Senedd** a **Llywodraeth Cymru** roi ystyriaeth ôl-ddeddfwriaethol i'r Ddeddf i archwilio:
  a. sut y gellir goresgyn y rhwystrau i weithredu llwyddiannus a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ac yn adroddiad y Comisiynydd; a
  b. sut y gall Cymru barhau ar flaen y gad o ran gweithredu i wella llesiant.

99 Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid hefyd ers dynodiad gwreiddiol y 44 corff o dan y Ddeddf, a gellid ailystyried amserlen y dynodiad. Mae'r Ddeddf yn gofyn am ymdrech gyfunol a chydgysylltiedig ar draws y sector cyhoeddus. Fodd bynnag:

- mae sawl corff cyhoeddus newydd wedi'u sefydlu ers 2015 ond nid ydynt wedi'u dynodi o dan y Ddeddf;[45] ac
- efallai y bydd cyrff sy'n bodoli eisoes (megis Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru) angen dynodiad hefyd.

### Argymhelliad 2

Felly, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell:

- bod **Llywodraeth Cymru** yn ystyried a ddylid dynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol drwy orchymyn i fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.

## Beth nesaf ar gyfer ein dull archwilio?

100 Rydym yn parhau i gynnwys a chydweithredu i sicrhau bod ein methodoleg archwilio yn ychwanegu gwerth. Cyn hir, byddwn yn gofyn am adborth ar y dull a ddefnyddiwyd hyd yma.

101 Byddwn yn cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Comisiynydd, i helpu i lywio cyfeiriad strategol ein gwaith o dan y Ddeddf o 2020-2025. Rydym yn bwriadu gwahodd sylwadau ar ein cynigion trwy ymgynghoriad ffurfiol, a fydd yn lansio ar adeg priodol yn ddiweddarach yn 2020.

45 Mae'r cyrff Newydd yn cynnwys: Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru.

# Atodiad

## 1 Methodoleg Archwilio

# 1 Methodoleg Archwilio

- Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn wedi dod o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys archwiliadau gwerth am arian perthnasol wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi gan yr Archwilydd Cyffredinol rhwng 2015 a 2020:
  - Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, Mehefin 2019
  - Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, Medi 2019
  - Y Gronfa Gofal Integredig, Gorffennaf 2019
  - Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb', Chwefror 2019
  - Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Mai 2018
  - Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Hydref 2019
  - Llesiant Pobl Ifanc, Medi 2019
- Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn deillio o'r archwiliadau penodol a gwblhawyd gennym ym mhob un o'r 44 corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf:

## Ein harchwiliadau o'r 44 corff cyhoeddus

- Fe aethom ati i gwblhau 71 o archwiliadau mewn 44 o gyrff cyhoeddus. Cwblhawyd archwiliadau o lywodraeth leol, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yn 2018-19 a 2019-20 fel rhan o'n rhaglenni gwaith archwilio. Fe aethom ati i archwilio cyrff eraill naill ai yn 2018-19 neu 2019-20.

- Ar gyfer pob un o'r archwiliadau hyn, dewiswyd un 'cam' roedd y corff yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant. O ran Llywodraeth Cymru ei hun, archwiliwyd tri cham ar wahân i sicrhau ein bod yn cynnwys ei phrif grwpiau cyflawni.

- Er mwyn ystyried i ba raddau roedd cyrff yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant, roeddem hefyd yn ceisio deall cyd-destun corfforaethol unrhyw 'gamau'. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio yn y dyfodol hefyd.

## Dull

Mae'r tabl isod yn disgrifio ein gweithgareddau craidd ar gyfer pob archwiliad:

| Gweithgaredd | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynllunio** | Ar ôl trafod â phob corff cyhoeddus, nodwyd 'cam' priodol i'w archwilio'n fanwl. |
| **Gweithdy cwmpasu gwaith maes** | Cynhaliwyd gweithdy strwythuredig ar ddechrau ein gwaith maes er mwyn deall:<br>• pam oedd swyddogion allweddol/aelodau/rhanddeiliaid eraill wedi gweithredu fel y gwnaethant wrth ddylunio a chyflwyno'r cam/gweithgaredd.<br>• beth roeddent wedi'i gyflawni a'i ddysgu yn eu barn nhw. Yn benodol, ystyried sut yr oeddent wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio.<br>Arweiniodd y gweithdy hwn at naratif a luniwyd gan gyfraniadau'r rheiny oedd yn bresennol, a oedd yn rhan bwysig o'n tystiolaeth archwilio. |
| **Adolygiadau o ddogfennau** | Adolygwyd dogfennau a oedd yn berthnasol i roi'r cam penodol ar waith. |
| **Cyfweliadau** | Fe aethom ati i gynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws i ofyn am farn trawstoriad eang o staff a rhanddeiliaid eraill. |
| **Gweithdy adborth ac ymateb** | Cynhaliwyd gweithdy i rannu ein canfyddiadau, hyrwyddo trafodaeth ac annog y corff i fyfyrio ar ein canfyddiadau, cyn mynd ati i ddatblygu ei gamau gwella ei hun mewn ymateb. |
| **Adroddiad cryno** | Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys:<br>• crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr archwiliad, wedi'u trefnu o dan bob un o'r pum ffordd o weithio;<br>• y camau y penderfynodd y corff i'w cymryd mewn ymateb i'n canfyddiadau, wedi'u cytuno yn y gweithdy Adborth ac Ymateb.<br>Fe wnaethom gadw'r hawl i wneud cynigion ar gyfer gwelliant yn ogystal â'r camau gweithredu a nodwyd gan y corff. |

## Prif gwestiynau'r archwiliad

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif gwestiynau roeddem yn ceisio eu hateb wrth ymgymryd â'r archwiliad hwn, gan ganolbwyntio ar y 'pum ffordd o weithio':

| I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth roi'r cam gweithredu ar waith? |
| --- |
| 1 I ba raddau y mae'r corff wedi ystyried sut fydd y cam gweithredu yn diwallu anghenion tymor byr a hirdymor? |
| 2 I ba raddau y mae'r corff wedi ystyried sut fydd y cam gweithredu yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu? |
| 3 I ba raddau y mae'r corff wedi ystyried yr angen am ddull gweithredu integredig wrth roi'r cam ar waith? |
| 4 I ba raddau y mae'r corff wedi ystyried yr angen i gydweithredu wrth roi'r cam ar waith? |
| 5 I ba raddau y mae'r corff wedi ystyried yr angen i gynnwys y bobl briodol a sicrhau eu bod yn cynrychioli amrywiaeth y boblogaeth? |

## Adrodd ar yr archwiliadau

- Cyflwynwyd canfyddiadau pob archwiliad mewn adroddiad. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys camau gweithredu'r cyrff mewn ymateb i'n canfyddiadau hefyd.
- Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r canfyddiadau amrywiol, y themâu pwysig a'r prif bwyntiau dysgu sy'n deillio o'r archwiliadau. Nid yw'n cyflwyno casgliadau diffiniol yn ymwneud â pherfformiad pob corff, sector neu'r 44 corff cyhoeddus yn eu cyfanrwydd.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru